


# ADRODDIAD BLYNYDDOL CHWARAEON CYMRU

# 2021- 2022

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

CHWARAEON CYMRU

# CYNNWYS


| | RHIF TUDALEN |
|---|---|
| TROSOLWG PERFFORMIAD | 6 |
| Y WELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU | 8 |
| EIN BWRIADAU | 10 |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL INTEGREDIG | 11 |
| EIN FFOCWS | 12 |
| EFFAITH PANDEMIG COVID | 13 |
| PENBLWYDD HAPUS CHWARAEON CYMRU | 14 |
| EIN MEYSYDD GWAITH | 16 |
| SECTOR CHWARAEON GWYDN | 36 |
| CYMRU AR LWYFAN Y BYD | 40 |
| BUDDSODDI MEWN CHWARAEON CYMUNEDOL | 50 |
| EIN DIRNADAETH | 53 |
| ADLEWYRCHU AR Y FLWYDDYN | 54 |
| EIN GWAITH FEL CORFF CYHOEDDUS | 55 |
| DADANSODDI PERFFORMIAD | 67 |
| CANLYNIADAU ARIANNOL | 78 |
| ADRODDIAD ATEBOLRWYDD | 83 |
| DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22 | 86 |
| ADRODDIAD TÂL A STAFF | 94 |

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

# 1 EBRILL 2021 - 31 MAWRTH 2022

## ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Chwaraeon Cymru yn Unig Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

## HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Brenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i cyllidir drwy gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau. Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 o'r Siarter Brenhinol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a benderfynir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn swyddfa Chwaraeon Cymru yng Ngherddi Sophia yng Nghaerdydd.

Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi cofrestru fel elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) ac addysg yng nghyswllt hynny;

2. darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

### SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia,
Caerdydd,
Cymru,
CF11 9SW



# NEGES GAN LAWRENCE CONWAY, CADEIRYDD CHWARAEON CYMRU...

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arall dan gysgod Covid-19. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru a'r adnoddau ariannol ychwanegol sydd wedi bod ar gael yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf i'n helpu ni i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Mae fy niolch hefyd i'r sector chwaraeon ei hun, a Chymdeithas Chwaraeon Cymru, sydd wedi gweithio'n agos gyda ni. Mae'r sector wedi dangos gwytnwch rhyfeddol a chredaf, drwy'r ymdrech hon ar y cyd, ein bod bellach mewn lle da, wrth i ni ddychwelyd i normalrwydd chwaraeon fel yr oedd cyn Covid-19.

Drwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi bod yn cynnal arolygon o lefelau gweithgarwch corfforol sydd unwaith eto wedi dangos y gwahaniaethau amlwg mewn lefelau gweithgarwch corfforol rhwng grwpiau cymdeithasol, ac yn benodol, yr effaith ar blant o gymunedau mwy difreintiedig. Yn erbyn y cefndir hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector addysg ehangach i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd a chyfraniad chwaraeon a gweithgarwch corfforol ehangach ato.

Rydym hefyd wedi cyfrannu at y gwaith sydd ynghlwm wrth sefydlu cynlluniau peilot Llywodraeth Cymru – yn edrych ar y ffyrdd y gallem ymestyn y diwrnod ysgol i gynnwys mwy o weithgareddau diwylliannol a gweithgarwch corfforol. Drwy hyn, rydym wedi arwain ar sefydlu prosiectau peilot 'actif y tu hwnt i'r diwrnod ysgol' mewn sawl ysgol yng Nghymru.

Eleni rydym hefyd wedi datblygu Partneriaethau Chwaraeon. Mae Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru wedi'i sefydlu a bydd yn mynd yn fyw ym mis Ebrill 2022. Rwy'n hyderus y bydd ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn arwain at sefydlu'r pedair Partneriaeth Chwaraeon arall ar gyfer gweddill Cymru yn ystod 2022/23.

Mae'r rhain yn fentrau mawr a fydd yn cyfrannu'n aruthrol o ran cyrraedd cymunedau ac unigolion nad ydynt, am resymau diwylliannol ac economaidd, wedi gallu mwynhau manteision chwaraeon neu fywyd mwy actif yn gorfforol.

Yn yr arena chwaraeon ryngwladol ehangach, mae wedi bod yn flwyddyn wych arall i Gymru. Yn y byd pêl droed, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn - mae gobaith gwirioneddol o gymhwyso ar gyfer rowndiau terfynol Cwpan y Byd y Merched a'r Dynion yn 2022. Cafodd ein hathletwyr o Gymru, er gwaethaf yr holl anawsterau logistaidd ac eraill i hyfforddiant lefel uchel drwy'r pandemig, Gemau Olympaidd a Pharalympaidd gwych yn Tokyo fel rhan o Dîm Prydain Fawr. Perfformiodd holl athletwyr Cymru gyda chlod, gan ennill 22 o fedalau i gyd, wyth ohonynt yn aur. Gallant hwy ynghyd â'u ffrindiau, perthnasau, hyfforddwyr, a phawb arall yn y sector perfformiad uchel, fod yn hynod falch o'u cyflawniadau ac am ddod â chymaint o bleser i gymaint ohonom yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn olaf, eleni gadawodd ein Prif Swyddog Gweithredol, Sarah Powell, Chwaraeon Cymru yn dilyn ei phenodiad i rôl Prif Swyddog Gweithredol Gymnasteg Prydain. Hoffwn ddiolch i Sarah am ei hymroddiad a'i hymrwymiad diwyro i chwaraeon yng Nghymru ac i waith y sefydliad hwn. Mae gennym lawer i ddiolch iddi amdano a dymunaf bob llwyddiant iddi yn ei rôl newydd. Mae wedi bod yn bleser, ac rydym yn ffodus iawn, o gael Brian Davies wedi dechrau ar ei benodiad dros dro yn Brif Swyddog Gweithredol ers mis Medi.



# TROSOLWG PERFFORMIAD



# NEGES GAN BRIAN DAVIES, PRIF WEITHREDWR DROS DRO CHWARAEON CYMRU…

## YMRWYMIAD I'R WELEDIGAETH

Wrth i mi adlewyrchu ar y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n cael fy atgoffa o'r dyfyniad gan y cyn Brif Swyddog Gweithredol, Sarah Powell, mewn Adroddiad Blynyddol blaenorol:

> **"WRTH I NI EDRYCH TUA'R DYFODOL, BYDDWN YN DEFNYDDIO'R GWERSI O'R FLWYDDYN DDIWETHAF HON WRTH I NI ADFER, AILGYSYLLTU AC AILFYWIOGI'R SECTOR….",**

Ychydig a wydden ni bryd hynny y byddem yn dal i wynebu anawsterau a tharfu parhaus yn ymwneud ag adferiad Covid-19 mewn chwaraeon. Heb amheuaeth, mae'r tarfu wedi bod yn heriol. Mae'r pandemig wedi profi gwytnwch chwaraeon yng Nghymru ac wedi gofyn i ni fod yn hyblyg ac yn arloesol gyda'n hadnoddau. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn gallaf ddweud yn hyderus - mae chwaraeon wedi darparu llawer o enghreifftiau o'r rôl bwysig mae'n ei chwarae yng ngwead a lles cyffredinol ein cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod chwaraeon yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl Cymru. Ni allwn wneud hyn heb gefnogaeth y Llywodraeth, ein partneriaid, a'n rhwydweithiau ehangach. Mae ein partneriaid a'n rhanddeiliaid wedi ymateb yn wych unwaith eto i heriau yn ystod y flwyddyn ac mae staff a Bwrdd Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar iawn i bawb yn y sector am eu hymdrechion effeithiol, ar y cyd.

Eleni, parhaodd yr agweddau buddiol ar **gydweithredu** cynyddol, a sefydlwyd pan darodd y pandemig gyntaf yn 2020, i dyfu. Rhaid i ni barhau i archwilio ac arloesi yn y gofod **cydweithredol** hwn, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod chwaraeon yn dod allan yn gryfach fyth o'r amgylchiadau anarferol yn ddiweddar. Mae'n amlwg, drwy gydweithio, y byddwn yn sicrhau bod y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn parhau i gael ei chyflawni.

Ni fyddai unrhyw adroddiad blynyddol yn gyflawn heb dalu teyrnged hefyd i'r miloedd o wirfoddolwyr a hyfforddwyr ledled Cymru sy'n rhoi o'u hamser i gefnogi chwarae, hamdden actif a phrofiadau chwaraeon pleserus, o safon uchel. Mae'r profiadau hyn, wedi'u hwyluso gennych chi, yn bwysicach nag erioed.

Yn ogystal â'r heriau, rhaid i ni hefyd ddathlu llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf. Uchafbwynt personol i mi yw Menna Fitzpatrick, a ddaeth eleni yn Baralympiad y Gaeaf mwyaf llwyddiannus Prydain gan ennill medal arian ac efydd yng Ngemau Beijing 2022 i ychwanegu at ei dwy o PyeongChang yn 2018.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar sut mae angen datblygu llwyddiant ein hathletwyr ar lwyfan y byd yn gyfannol, a thrwy hynny ddarparu llwyddiant **cynaliadwy** a'r hwb ysbrydoledig yr ydym yn ei werthfawrogi. Bydd cyfle **cyfartal**, ac agwedd at chwaraeon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn parhau i fod yn ffocws i ni yn Chwaraeon Cymru wrth i ni edrych ymlaen at y 12 mis nesaf.

Yn olaf, rhaid i mi dalu teyrnged i Sarah Powell am ei 11 mlynedd o wasanaeth i Chwaraeon Cymru, gydag 8 o'r rhain yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol. Bydd pawb yn gweld colli brwdfrydedd, ymrwymiad, egni a sêl Sarah ac yn enwedig fi, ond rydym yn falch ei bod yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y sector. Byddai hefyd yn esgeulus i mi beidio â diolch i holl staff a Bwrdd Chwaraeon Cymru am eu cefnogaeth ddiwyro i mi wrth i mi gyflawni rôl y Prif Swyddog Gweithredol dros dro.



Mae wir yn ymdrech ar y cyd yn Chwaraeon Cymru, ac o fewn y sector, ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar i'm holl gydweithwyr.

# ATGOFFA
# Y WELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU

## *CENEDL ACTIF LLE GALL PAWB GAEL MWYNHAD OES O CHWARAEON*

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn sail i'n gwaith ni fel sefydliad, gwaith **cydweithredol** y sector chwaraeon, a ac **ymwneud** rhanddeiliaid ehangach. Nid rhywbeth i Chwaraeon Cymru weithio tuag ati yn unig yw'r weledigaeth, yn hytrach mae'n gyfrwng cyfunol ar gyfer ymgysylltu traws-sector i drawsnewid Cymru yn genedl actif.

## CENEDL ACTIF

**RYDYN NI EISIAU I GYMAINT O BOBL Â PHOSIBL GAEL EU HYSBRYDOLI I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON.**

## PAWB

**MAE'R WELEDIGAETH AR GYFER PAWB. O BOBL NAD YDYNT YN GWELD EU HUNAIN FEL RHAI MEDRUS MEWN CHWARAEON I'R RHAI SY'N ENNILL MEDALAU.**

## GYDOL OES

**MAE'R WELEDIGAETH AM OES, MAE'N YMATEB I ANGHENION POBL MEWN GWAHANOL GYFNODAU YN EU BYWYD.**

## MWYNHAD

**MAE'R WELEDIGAETH YN CANOLBWYNTIO AR GREU AMRYWIAETH O BROFIADAU CADARNHAOL FEL BOD PAWB YN GALLU MWYNHAU CHWARAEON.**

## YN BWYSIG, MAE'R WELEDIGAETH WEDI'I SEILIO AR Y **5 FFORDD O WEITHIO** YN UNOL Â **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015:**

- **TYMOR HIR.**
  Mae'r weledigaeth yn sicrhau ein bod ni, ochr yn ochr â'n partneriaid, yn cynllunio ar gyfer y **tymor hir**, yn datblygu cyfleoedd sy'n ymateb i anghenion pawb mewn cymdeithas sy'n newid.

- **ATAL.**
  Mae'r weledigaeth yn **ymwneud** â sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, yn hwyl ac yn fforddiadwy, ac nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi adnoddau i **atal** problemau rhag digwydd, neu rhag gwaethygu.

- **INTEGREIDDIO.**
  Mae'r weledigaeth yn uno'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau drwy ei huchelgeisiau. Mae wedi'i seilio ar effaith **gydweithredol** yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

- **CYDWEITHREDU.**
  Mae'r weledigaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru ac angen cefnogaeth pawb – gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

- **YMWNEUD.**
  Lluniwyd y weledigaeth yn dilyn sgyrsiau gydag unigolion o bob rhan o Gymru ac mae'n parhau i hyrwyddo cyfranogiad i lunio dyfodol Cymru fel cenedl actif.

Mae'r weledigaeth yn sail i'n strategaeth, a'n cynllun busnes blynyddol. Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwch yn darllen am feysydd craidd ein gwaith sy'n hwyluso ein gwaith tuag at y weledigaeth.

> **RYDYM YN HYNOD DDIOLCHGAR AC YN FALCH IAWN O'R YMDRECH GYDWEITHREDOL GAN SECTOR CHWARAEON CYMRU I YMRWYMO I'R WELEDIGAETH.**

# EIN BWRIADAU

Fel rhan o'n rôl yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, rydym yn gweithio i chwe datganiad bwriad strategol. Mae'r datganiadau sefydliadol hyn yn dangos yr hyn y gallwch ddisgwyl ei weld o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni, a'r gwaith yr ydym yn rhan ohono.

Mae'r datganiadau hyn hefyd yn gweithredu fel ein **Hamcanion Llesiant**, ac rydym yn eu defnyddio i lunio ein hadroddiadau ar ddyletswyddau cyhoeddus **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf) Cymru 2015.** Fe welwch lawer o enghreifftiau o sut rydym yn gweithio tuag at yr amcanion hyn yng nghorff yr adroddiad ac, ar y dudalen o dan 'Ein gwaith fel Corff Cyhoeddus.'

## DYMA EIN DATGANIADAU BWRIAD STRATEGOL:

### #1 BOD YN BERSON GANOLOG
Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am **gynnydd** neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

### #2 RHOI DECHRAU GWYCH I BOB PERSON IFANC
Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud **cynnydd** drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

### #3 SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON
Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

### #4 DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR
Ceir sector chwaraeon cydweithredol, **cynaliadwy** a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

### #5 ARDDANGOS MANTEISION CHWARAEON
Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

### #6 BOD YN SEFYDLIAD HYNOD WERTHFAWR
Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL INTEGREDIG

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn integreiddio ein **Hadroddiad Safonau'r Iaith Gymraeg** ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol ar **Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** a **Dyletswydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae ein **Hadroddiad ar Fioamrywiaeth** hefyd wedi'i integreiddio yn ein **Hadroddiad Cynaliadwyedd** o fewn yr Adran Cyfrifon Blynyddol.

Mae'r **integreiddio** hwn yn dod â'r adrodd ar ddyletswyddau cyhoeddus i un ddogfen i roi darlun mwy cyfannol o'n gwaith. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad.

> **RYDYM YN CREDU BOD HWN YN DDULL UNIGRYW A BLAENLLAW O ADRODD GAN GYRFF CYHOEDDUS YNG NGHYMRU.**

Bydd llawer o enghreifftiau ac egwyddorion o'n gwaith yn cael eu hymgorffori gan ddefnyddio iaith, er enghraifft: '**cydweithredu**, **ymwneud**, **tymor hir**, **atal** ac **integreiddio**' neu eu hamlygu gyda'r logos canlynol:

LICD

Cydraddoldeb

Yr Iaith Gymraeg





# EIN FFOCWS AR GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Sicrhau y gall chwaraeon fod i bawb yw ein ffocws yn Chwaraeon Cymru. Credwn fod ein strategaeth - a luniwyd i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru - yn sicrhau bod y gwaith rydym yn ei flaenoriaethu yn diwallu anghenion ein cymdeithas.

Eleni, rydym wedi parhau i gynyddu ein dull o sicrhau bod chwaraeon yn gynhwysol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull teg o fuddsoddi, datblygu partneriaethau newydd, a pharhau i wrando a dysgu gan gymunedau ar draws pob maes o'n busnes.

Yn bwysig, un ffocws craidd i'n dull gweithredu yw ymgorffori dull croestoriadol o weithredu gyda'r ffordd rydym yn gweithio, a'r hyn rydym yn gweithio arno. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn arddangos hynny.

> **MAE CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT YN RHAN O CHWARAEON CYMRU OHERWYDD MAE CHWARAEON YNG NGHYMRU AR GYFER PAWB.**

# HYGYRCHEDD

Eleni, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sut rydym yn adrodd straeon chwaraeon yng Nghymru drwy roi hygyrchedd wrth galon sut rydym yn gweithio. Mae gan 1 o bob 5 o bobl anabledd ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at ein straeon am chwaraeon ar gyfryngau cymdeithasol, ar ein gwefan, ac yn ein negeseuon e-bost.

Er mwyn cynyddu ein dull o weithredu gyda hygyrchedd, eleni fe wnaethom sicrhau partneriaeth tair blynedd gydag arbenigwyr hygyrchedd digidol a fydd yn profi ein gwefan yn flynyddol, yn cynnig cefnogaeth, ac yn darparu hyfforddiant. Mae ein partneriaid hygyrchedd wrthi'n cwblhau'r adolygiad blynyddol cyntaf o'r wefan ar hyn o bryd ac yn ddiweddar cafodd ein tîm cyfathrebu sesiwn hyfforddi ar wneud ein cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn fwy hygyrch. Mae rhagor o sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd wedi gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys arferion hygyrch fel gofynion ar gyfer darparwyr allanol. Rydym yn gweithio'n rheolaidd gydag asiantaethau dylunio y mae eu dylunwyr wedi'u hyfforddi'n benodol i gynhyrchu dogfennau hygyrch. Wrth symud ymlaen, hygyrchedd fydd yr ystyriaeth gyntaf bob amser ar gyfer sut rydym yn cyfathrebu.

# EFFAITH PANDEMIG COVID-19

Mae pandemig Covid-19 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r sector chwaraeon fod yn hyblyg, yn arloesol, a chydweithredu. Mae gwytnwch y sector eleni wedi bod yn rhyfeddol unwaith eto. Y gwytnwch hwn sydd wedi galluogi i ni feddwl, a gweithredu'n wahanol gyda'n gilydd – gan eiriol dros chwaraeon mewn llefydd newydd, cyflymu ein gwaith gyda mentrau newydd, ac wrth gwrs, dathlu llwyddiannau ein gilydd fel partneriaid, a'n hathletwyr.

**DIOLCH I BAWB SY'N YMWNEUD Â CHWARAEON YNG NGHYMRU GENNYM NI YN CHWARAEON CYMRU.**

Mae Covid-19 wedi ysgogi dulliau newydd o weithio, a rhai mentrau newydd hefyd. Ymhlith y rhain mae:

- Datblygu'r Grŵp Chwaraeon Cenedlaethol. Mewn ymateb i lefelau rhybudd yn newid, a chyfyngiadau dilynol ar chwaraeon drwy gydol y pandemig, sefydlwyd y Grŵp Chwaraeon Cenedlaethol. Roedd y grŵp hwn, sef cydweithrediad a oedd yn cynnwys Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Gemau'r Gymanwlad Cymru, yn gyfrifol am reoli'r broses dynodi statws elitaidd ar gyfer dychweliad pwyllog a graddol at chwaraeon cystadleuol. Yn ogystal, casglodd y grŵp dystiolaeth o effaith dychwelyd at chwaraeon cystadleuol fel sail i adolygiadau cyfnodol Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau a'r canllawiau.

- Datblygiad gwybodaeth ciplun. Ar ddechrau'r pandemig, buom yn gweithio gyda Savanta ComRes i helpu i ddeall i ddechrau yr effaith gafodd y pandemig, neu'r effaith yr oedd yn ei chael, ar lefelau gweithgarwch. Ers hynny, rydym wedi deall, ar wahân i'r cwestiynau yr oeddem yn eu gofyn mewn perthynas â'r pandemig, bod y pôl tracio gweithgarwch cenedlaethol hwn yn ychwanegiad defnyddiol at yr arolygon goruchwylio ar lefel y boblogaeth a gynigir gan Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Felly bydd yn parhau i fod yn rhan o'n gwaith o gasglu gwybodaeth.

- Bod yn hyblyg gyda buddsoddiad. Fe wnaethom barhau i weithredu Cronfa Cymru Actif o dan faner tair ffrwd - **Diogelu, Paratoi a Chynnydd** - i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion cymunedau yng Nghymru a oedd angen lefelau gwahanol o gefnogaeth ar wahanol adegau yn ystod y pandemig. Mae hyblygrwydd ar draws cyllid cymunedol yn rhan o'n dull o weithredu bellach.

- Annog Cymru i fod #NôlYnYGêm. Yn 2021 fe wnaethom lansio ymgyrch i helpu pobl i ailgysylltu â chwaraeon unwaith y byddai'r cyfyngiadau wedi'u llacio a dychwelyd i chwarae'n cael ei ganiatáu. Nod yr ymgyrch oedd hybu hyder, cymhelliant ac ymwybyddiaeth pobl ac roedd wedi'i hanelu at bobl yr oedd lefel eu gweithgarwch wedi gostwng yn ystod y pandemig.




# PEN BLWYDD HAPUS I GANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU

# NEWIDIADAU I'R GANOLFAN GENEDLAETHOL

Eleni, roedd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd yn falch o fod yn ôl yn gweithredu ar ôl cau am gyfnodau sylweddol yn ystod y pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae ein staff gweithredol wedi parhau i weithio'n ddiflino i gadw'r drysau ar agor i athletwyr, ac i groesawu aelodau'r cyhoedd yn ôl yn ddiogel.

## YN YSTOD Y FLWYDDYN, RYDYM HEFYD WEDI BOD YN BRYSUR YN GWNEUD RHAI YCHWANEGIADAU AT Y GANOLFAN...

Agorwyd y caffi Hwb newydd gennym ar y llawr gwaelod ac rydym wedi symud i ddefnyddio cyflenwyr bwyd lleol i gefnogi busnesau lleol llai. Rydym bellach yn falch o ddefnyddio cyflenwr coffi lleol, yn ogystal â phobydd artisan lleol. Hefyd rydym wedi gwneud newidiadau i'n bloc llety, ac mae'r ailwampio wedi bod o fudd i'n holl gwsmeriaid, yn enwedig yr athletwyr. Cafodd yr ystafelloedd gwely eu gweddnewid ar raddfa fechan, gan gael gwared ar y lliwiau tywyllach a'u newid am orffeniad glanach a gwynach. Mae'r nwyddau ymolchi yn yr ystafelloedd yn dod gan gwmni menter gymdeithasol o Gymru hefyd, lle mae holl elw'r gwerthiant yn cael ei ailfuddsoddi yn y gymuned leol.






# EIN MEYSYDD GWAITH

- CHWARAEON AR GYFER IECHYD A LLES Y CYHOEDD
- CHWARAEON I GREU POBL IFANC ACTIF
- CHWARAEON I GYSYLLTU CYMUNEDAU
- CREU SECTOR CHWARAEON GWYDN
- CHWARAEON O GYMRU AR LWYFAN Y BYD



# IECHYD A LLES Y CYHOEDD

Mae chwaraeon yn chwarae rhan sylfaenol wrth gefnogi iechyd a lles Cymru. Rydym yn gwybod y gall annog mwy o bobl i fod yn fwy actif arwain at welliant ar lefel poblogaeth mewn canlyniadau iechyd a lles cyffredinol.

## ELENI, RYDYM WEDI CYNYDDU EIN GWAITH I GYFLAWNI'R CANLYNOL:

- Eiriol dros chwaraeon wrth galon iechyd.
- Cadarnhau rôl gefnogi hanfodol chwaraeon ar draws lles y meddwl.
- Gwella **cydweithredu** traws-sector rhwng chwaraeon ac iechyd.

## EIN GWAITH AR BRESGRIPSIYNAU CYMDEITHASOL

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ddull o alluogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gyfeirio pobl at ystod o wasanaethau lleol, anghlinigol. Rydym yn gwybod bod gweithgarwch corfforol yn chwarae rhan allweddol wrth **atal** rhai afiechydon anhrosglwyddadwy ac y gall chwaraeon gael effaith sylweddol fel rhan o bresgripsiynu cymdeithasol.


Yn 2021-2022, cryfhaodd Chwaraeon Cymru ein hymrwymiad i gefnogi datblygiad Presgripsiynau Cymdeithasol yng Nghymru drwy ymuno â'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer Presgripsiynau Cymdeithasol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd a Lles y Meddwl. Rôl y grŵp gorchwyl a gorffen yw cefnogi'r gwaith o greu fframwaith cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynau Cymdeithasol yng Nghymru, sydd â'r nod o ddeall sut gall presgripsiynu cymdeithasol helpu Cymru i wella ar ôl covid, a sut gall presgripsiynau cymdeithasol chwarae rhan bwysig wrth helpu i symud y pwyslais o drin salwch, i hybu gwell llesiant ac **atal** salwch.

## EIN GWAITH YN CREU PWYSAU IACH, CYMRU IACH

Eleni, rydym wedi cyfrannu at ddatblygiad cynllun cyflawni Pwysau Iach Cymru Iach 2022-2024 sy'n cydnabod effaith covid ar iechyd corfforol a meddyliol. Rydym yn bartner arweiniol ar gyfer 5 o'r 7 Blaenoriaeth Genedlaethol, gan gynnwys y canlynol:

- **BLAENORIAETH GENEDLAETHOL 2**
  Galluogi amgylcheddau a gofod actif i annog mwy o symud mewn bywyd bob dydd.
- **BLAENORIAETH GENEDLAETHOL 3**
  Hyrwyddo a chefnogi teuluoedd i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd, o'r cyfnod cyn beichiogrwydd i'r blynyddoedd cynnar.
- **BLAENORIAETH GENEDLAETHOL 4**
  Galluogi ein lleoliadau addysg i fod yn llefydd lle mae iechyd corfforol a meddyliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
- **BLAENORIAETH GENEDLAETHOL 5**
  Cael gwared ar rwystrau i leihau anghydraddoldeb deiet ac iechyd ar draws y boblogaeth.
- **BLAENORIAETH GENEDLAETHOL 7**
  Gwella datblygiad y system **atal** sy'n galluogi arweinyddiaeth ar bob lefel.

## EIN GWAITH YN CEFNOGI IECHYD A LLES Y MEDDWL




Mae gan chwaraeon rôl a chyfrifoldeb i gefnogi lles meddyliol ac mae manteision gweithgarwch corfforol wrth gefnogi iechyd meddwl wedi'u cofnodi'n dda. Yn ystod y pandemig, dangosodd ein data bod 60% o oedolion a arolygwyd wedi dweud eu bod yn gwneud ymarfer corff i reoli eu hiechyd meddwl, ac yn gynnar yn 2022 - roedd y ffigur hwn yn parhau i fod dros 50%.

Rydym yn gwybod y gall chwaraeon, yn enwedig ar lefel elitaidd a pherfformiad uchel, gynnwys ffactorau straen ychwanegol hefyd. Mae ein dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddatblygu athletwyr a pherfformiad yn edrych yn gyfannol ar ddatblygu'r person cyfan ar hyd ei siwrnai chwaraeon.

## EIN GWAITH YN DATBLYGU PANEL IECHYD A LLES Y MEDDWL

Mae Panel Iechyd a Lles y Meddwl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda chynrychiolwyr ar draws Chwaraeon Cymru. Er mwyn sicrhau ein bod yn ei ddatblygu ar sail sylfaen dystiolaeth a theori seicolegol, bydd hyn yn cynnwys arbenigedd gan Seicolegydd Clinigol a benodwyd i'r sefydliad ar ddechrau 2021. Mae'r panel hefyd yn bwriadu ymgynghori ag athletwyr i sicrhau **ymwneud** gan athletwyr, a bod llais yr athletwyr yn cael ei glywed, ei werthfawrogi, a'i gynrychioli.



# ASTUDIAETH ACHOS LLESIANT AC IECHYD MEDDWL MEWN CHWARAEON PERFFORMIAD

Er mwyn deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar les ac iechyd meddwl athletwyr, yn 2022, cynhaliwyd prosiect ymchwil gennym ochr yn ochr â dau Gorff Rheoli Cenedlaethol. Mewn ymateb i'r **Adolygiad Dyletswydd o Ofal (2017)** a D**eddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)**, nod y prosiect oedd cyflawni'r canlynol:

- Archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar les ac iechyd meddwl athletwyr.
- Dyfeisio, gweithredu a gwerthuso ymyriad pwrpasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a all gynnal/gwella lles ac iechyd meddwl athletwyr.

## I WNEUD HYN RYDYM WEDI GWNEUD Y CANLYNOL:

1. Casglu data drwy **gydweithredu** ag athletwyr drwy gyfweliadau, arsylwadau, a dyddiaduron athletwyr.

2. Gweithredu a gwerthuso ymyriad sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o wella lles seicolegol/iechyd meddwl athletwyr ac ysgogi newidiadau hirdymor o fewn yr amgylchedd chwaraeon.

3. Cynhyrchu cyfres addysgol drwy blatfform podlediad i wella gwybodaeth am les ac iechyd meddwl. Datblygwyd y gyfres hon gydag amrywiaeth o ymarferwyr gwyddoniaeth a meddygaeth chwaraeon ac ymchwilwyr iechyd meddwl yn **ymwneud**.

4. Datblygu adnodd ar-lein, a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl am symptomau iechyd meddwl.

5. Darparu argymhellion amgylcheddol chwaraeon-benodol, seiliedig ar dystiolaeth, i bob Corff Rheoli Cenedlaethol eu hyrwyddo.

## BETH WNAETHOM EI DDYSGU?

- Gall amrywiaeth o ffactorau diwylliannol, amgylcheddol ac unigol effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar les ac iechyd meddwl athletwyr.
- Mae angen i ymyriadau dargedu ffactorau lluosog wrth anelu at wella a diogelu lles ac iechyd meddwl athletwyr.
- Mae angen i argymhellion i gynnal/gwella lles ac iechyd meddwl fod yn benodol i'r amgylchedd, oherwydd gall ffactorau amrywio ar draws chwaraeon.

## CEFNOGI IECHYD A LLES Y MEDDWL MEWN CYMUNEDAU

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda thimau Chwaraeon a Hamdden, Iechyd a Lles ac Addysg ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Rydym yn hynod ddiolchgar am y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod chwaraeon yn gallu ffynnu o fewn cymunedau lleol ac yn cydnabod y rôl bwysig y mae cydweithwyr chwaraeon a hamdden yn ei chwarae wrth eiriol dros chwaraeon wrth gefnogi iechyd a lles y meddwl.

# ASTUDIAETH ACHOS LLESIANT AC IECHYD MEDDWL DRWY LWYBRAU AWYR AGORED

Mae darparu mannau awyr agored wedi cael sylw sylweddol yn ystod y pandemig. Mewn ymateb i hyn, ehangodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful eu gwaith ar dreialon awyr agored, a arweiniodd at fwy o bobl yn defnyddio llwybrau ar draws y fwrdeistref ynghyd â chynnydd o 49% yn y defnydd o Lwybr Taf. Dangosodd arolwg Merthyr Actif bod nifer sylweddol o bobl wedi dweud mai cerdded neu redeg oedd eu prif ffynhonnell o ymarfer corff yn ystod y pandemig - a oedd yn ganfyddiad tebyg i ganfyddiad ein harolygon drwy gydol 21/22. O'r herwydd, mae cyfleoedd cerdded wedi cael eu hyrwyddo'n frwd ers hynny. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau cerdded thema i blant, yn ogystal â ffilmio llwybrau ar draws y fwrdeistref i hyrwyddo'r lleoliadau sydd ar gael. Yn ogystal â hyn, arweiniodd her cerdded i deuluoedd yn 2022 at fwy na 200 o deuluoedd yn ymuno yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf! Bu cynnydd sylweddol mewn heriau rhedeg rhithwir lleol, beicio cymdeithasol a defnydd cyffredinol o lwybrau a mannau awyr agored drwy gydol cyfnod Covid-19, gan ddangos yn anfwriadol y cyfleoedd sy'n bodoli yn lleol.

## EIN GWAITH GYDA MIND CYMRU

Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, eleni buom yn **cydweithredu** â Mind Cymru ar gyfer ymgyrch i dynnu sylw at fanteision iechyd meddwl sylweddol symud mwy a bod yn actif. Crëwyd tair ffilm nodwedd fer ac fe'u cyhoeddwyd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y ddau sefydliad ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Roedd y ffilmiau'n dangos astudiaethau achos real, ymchwil, ac enghreifftiau o bŵer ymarfer corff i leihau straen, unigrwydd, gorbryder ac iselder.

## EIN GWAITH AR Y CYNLLUN HAMDDEN ACTIF 60+

Eleni, rydym wedi parhau i gefnogi'r Cynllun Hamdden Actif 60+. Mae'r fenter hon yn galluogi'r grŵp poblogaeth hwn i fyw bywydau hirach, gwell a hapusach drwy wella eu lefelau gweithgarwch, eu hyder, eu cryfder, a'u balans.

**CYFANSWM Y BUDDSODDIAD I CHWARAEON CYMRU DROS GYFNOD Y CYNLLUN HAMDDEN 60+ AR GYFER 2021-2022 OEDD**

**£500,000**

gyda chyfran o'r arian hwn yn cael ei defnyddio mewn grantiau i'w dosbarthu i 22 o bartneriaid darparu'r Awdurdodau Lleol drwy brosiectau unigol, a chyfran yn cael ei defnyddio ar gyfer mesurau gwerthuso.

## EIN GWAITH YN CEFNOGI NOFIO AM DDIM

Eleni, rydym wedi parhau i gefnogi'r fenter Nofio Am Ddim gan weithio gyda phartneriaid yn yr Awdurdodau Lleol i fabwysiadu dull wedi'i dargedu o weithredu gyda'u buddsoddiad. Drwy gydol 2021-22 bu amrywiaeth o gynigion i wneud nofio yn hwyl ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach gan gynnwys uwchsgilio staff a gwneud newidiadau bychain i ardaloedd pyllau.

Mae Awdurdodau Lleol Sir Benfro a Phowys, er enghraifft, wedi ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig, gan geisio deall y rhwystrau sy'n atal cymryd rhan mewn nofio a gweithio gyda chwsmeriaid i oresgyn y rhain. Mae ardaloedd eraill fel Merthyr a Gwynedd wedi ffurfio partneriaeth gyda banciau bwyd, cymdeithasau tai a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau talebau a chyflwyno sesiynau nofio wedi'u targedu, a gwersi i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae gwaith penodol wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau oedran Dan 16 a Thros 60 wedi'i gynnal hefyd, yn ogystal â sesiynau penodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, sesiynau cyfeillgar i awtistiaeth, sesiynau cyfeillgar i ddementia yn ogystal â sesiynau merched yn unig a sesiynau caeedig ar gyfer cymunedau ethnig amrywiol. Mae'r sesiynau penodol hyn wedi'u teilwra i ymateb i anghenion amrywiol cymunedau.

**CYFANSWM Y BUDDSODDIAD YN Y CYNLLUN HWN YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF YW**

# £1.5 MILIWN

## EIN HYMWNEUD Â'R GRONFA IACH AC EGNÏOL

Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol yn rhaglen waith **gydweithredol** wedi'i sefydlu sy'n cael ei rheoli ar y cyd gan Lywodraeth Cymru (iechyd a chwaraeon), Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Eleni, rydym wedi parhau i fod yn gyfrifol am weinyddu grantiau i brosiectau. Ymrwymodd cam cyntaf y rhaglen £5.4 miliwn o gefnogaeth ariannol, dros gyfnod o dair blynedd, i 17 o brosiectau a allai helpu i gryfhau a datblygu asedau cymunedol, a hefyd anelu at wella iechyd meddyliol a chorfforol drwy alluogi mabwysiadu ffyrdd iach ac actif o fyw ar gyfer y tymor hir. Dyfarnwyd cyllid i sefydliadau sy'n mynd ati i hyrwyddo a galluogi gweithgarwch iach ar gyfer un neu fwy o'r grwpiau canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl ag anabledd neu salwch hirdymor
- Pobl sy'n economaidd anweithgar neu sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd
- Pobl hŷn a'r rhai sy'n agos at oedran ymddeol o'r gwaith

Mae'r Gronfa'n cael ei rheoli mewn sawl haen gan gynnwys Bwrdd Prosiect, Grŵp Cyflawni, Grŵp Gwerthuso, a Swyddogion Achos, gyda Chwaraeon Cymru yn darparu cynrychiolaeth ym mhob un o'r haenau hyn. UKRCS yw'r Gwerthuswyr Annibynnol sydd wedi'u penodi ar gyfer y rhaglen.

Er gwaetha'r heriau parhaus sy'n wynebu prosiectau, fel llifogydd a'r pandemig, mae llawer yn parhau i lwyddo i wneud gwahaniaeth i'w cymunedau. Cydnabuwyd yr heriau hyn gan y Gronfa. I gynorthwyo gyda **chynaliadwyedd tymor hir** prosiectau, ymrwymwyd pedwaredd blwyddyn ychwanegol o gyllid ym mis Ebrill 2021 a disgwylir i 16 o'r 17 o brosiectau barhau.

# POBL IFANC ACTIF

Gall chwaraeon greu pobl ifanc iach, **gwydn**. Rydym yn gwybod mai creu system addysg actif sy'n sicrhau cyfranogiad mewn chwaraeon yn y blynyddoedd cynnar yw'r cyfle sydd ei angen ar bobl ifanc yng Nghymru i ffynnu.

**Eleni, rydym wedi cynyddu ein gwaith i gyflawni'r canlynol:**

- Canolbwyntio ar hyrwyddo cyfleoedd **cyfartal** o ansawdd da i bobl ifanc gael mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gydol y cyfnod sylfaen.
- Darparu arbenigedd ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd.
- Arwain cyfnod peilot o waith sy'n edrych ar ehangu'r ddarpariaeth o chwaraeon i gymunedau, drwy ddefnyddio cyfleusterau ysgolion.
- Parhau i ganolbwyntio ar bwysigrwydd llais y person ifanc o fewn chwaraeon.

## EIN GWAITH AR SYLFEINI A CHYFRANOGIAD

Eleni rydym wedi datblygu ein dull o weithredu gyda sylfeini a chyfranogiad mewn chwaraeon. Yn 2021 fe wnaethom gynnwys amrywiaeth o bartneriaid yn y gwaith hwn, gan gynnwys cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, a rhanddeiliaid ehangach. Buom yn **cydweithredu** i amlinellu cyfres o gwestiynau i ddeall yn well sut rydym yn rhoi dechrau gwych i bob person ifanc a'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu sy'n eu **atal** rhag bod yn actif.

Ym mis Rhagfyr 2021, dyfarnwyd contract gennym i amrywiaeth o ymgynghorwyr ac ymchwilwyr i ymgymryd â nifer o gwestiynau ymchwil a datblygu sylfaen dystiolaeth fel ymateb i gwestiwn yr ymholiad proffesiynol a ofynnwyd. Canlyniad y gwaith hwn yw datblygu gwybodaeth a fydd yn galluogi ein partneriaid i gynnig darpariaeth chwaraeon sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n cymryd rhan. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2022.

Cymraeg

## GAEAF LLAWN LLES

Yn 2022, fe wnaethom barhau i weithio gyda'r sector i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'r Gronfa Gaeaf Llawn Lles.

# £1 MILIWN

**DYRANNWYD £1M I CHWARAEON CYMRU FEL RHAN O BECYN GAN LYWODRAETH CYMRU A LUNIWYD I YSBRYDOLI PLANT A PHOBL IFANC I YMWNEUD Â CHWARAEON, AC I FOD YN ACTIF, GAN GYNNWYS DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG.**

## EIN GWAITH YN CEFNOGI SYSTEMAU ADDYSG ACTIF

### Addysg Actif yn Cefnogi Gweithredu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru

Mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cynnig cyfle i greu'r profiadau priodol i gefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder, y cymhelliant, a'r gallu i fwynhau bod yn gorfforol actif am oes.

Rydym yn cydnabod bod y potensial i weithredu egwyddorion **atal** a **thymor hir** yn gyfle enfawr i chwaraeon o fewn ysgolion.

Nododd ymchwil gan ein partneriaid yn yr Youth Sport Trust bod ymarferwyr addysg yn awyddus i gael mwy o gefnogaeth wrth iddynt symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm newydd, yn arbennig – adnoddau, adnoddau ar-lein, a'r cyfle i rannu arfer da. Er mwyn bodloni'r galw hwn, rydym wedi dechrau datblygu platfform ar-lein i gartrefu amrywiaeth o adnoddau addysgol gyda ffocws penodol ar Feysydd Dysgu Iechyd a Lles a'r Celfyddydau Mynegiannol.

I ddechrau bydd y platfform hwn yn blaenoriaethu adnoddau presennol Chwaraeon Cymru ac wedyn yn ehangu i gynnwys adnoddau a ddarperir drwy bartneriaid Chwaraeon Cymru fel Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol. Wrth adeiladu'r platfform hwn ar y cyd, bydd ymarferwyr addysg, yn gydweithredol, yn darparu adborth defnyddwyr drwy grwpiau darganfod gwasanaeth wedi'u hwyluso, a fydd yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o adnoddau.

Disgwylir i'r platfform gael ei gwblhau a'i lansio ym mis Mai 2022.

## ADDYSG ACTIF Y TU HWNT I'R DIWRNOD YSGOL

Rydym eisiau sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol o ansawdd uchel y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Er mwyn hwyluso hyn, eleni rydym wedi arwain a chydlynu 'cyfnod peilot' menter Actif Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol.

> **MAE HYN WEDI'I GEFNOGI GAN FUDDSODDIAD O**
> **£300,000**
> **GAN LYWODRAETH CYMRU AC MAE'N BENODOL I WAITH Y TU ALLAN I'R CWRICWLWM.**

## O FEWN Y MAES GWAITH HWN, RYDYM WEDI GWNEUD Y CANLYNOL:

- Cwblhau papur ymchwil yn archwilio arfer cenedlaethol a rhyngwladol yn y maes hwn.
- Sefydlu arolwg cofnodi data, gan weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac ysgolion. Ymatebodd 20 Awdurdod Lleol i'r arolwg cofnodi data i roi cipolwg ar 'ysgolion sy'n darparu mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, drwy ddefnyddio eu cyfleusterau pan fo angen i wasanaethu anghenion eu cymuned'.
- Cefnogi 14 o ysgolion a gyrhaeddodd y rhestr fer yn llwyddiannus fel ysgolion peilot. Mae'r ysgolion peilot yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd o bob rhan o Gymru. Bydd monitro a gwerthuso'r ysgolion peilot yn digwydd tan fis Awst 2022.
- Mae Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru wedi'i gomisiynu i gefnogi'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r ysgolion peilot, a disgwylir adroddiad terfynol ar 1af Medi 2022.

## EIN GWAITH YN CEFNOGI POBL IFANC ACTIF GYDA'R AWDURDODAU LLEOL

Rydym yn cydnabod bod Timau Datblygu Chwaraeon mewn Awdurdodau Lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau cymunedol i adeiladu sylfaen chwaraeon gadarn i bobl ifanc i'w galluogi i fod yn gorfforol actif am oes. Eleni rydym wedi gweithio'n agos gyda thimau Awdurdodau Lleol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Arolwg Chwaraeon Ysgol am y pumed tro yn **gydweithredol** (yn fyw 28ain Mawrth 2022).

## EIN GWAITH YN SEFYDLIU PANEL IEUENCTID CHWARAEON CYMRU

Sicrhau bod 'pawb yn cael mwynhad oes o chwaraeon' a rhoi 'y dechrau gorau i bob person ifanc' oedd y sbardunau craidd ar gyfer sefydlu Panel Ieuenctid Chwaraeon Cymru yn 2021. Pwrpas y panel yw rhoi llais i bobl ifanc ar draws ein gwaith drwy gysylltu'n uniongyrchol â Bwrdd Chwaraeon Cymru.

Cynhelir y panel bum gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys 14 aelod, sy'n adlewyrchu cyfarfodydd bwrdd Chwaraeon Cymru, a chyfansoddiad y bwrdd. Mae aelodau'r panel rhwng 14 a 26 oed ac fe'u recriwtiwyd drwy broses gyfweld gystadleuol. Rydym yn ymrwymo'n gadarn i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac amrywiaeth ar draws y panel. Mae gan y panel presennol lais cynrychioliadol gyda chydbwysedd o sgiliau, profiad, cefndiroedd, ethnigrwydd a rhywedd.

Arweinir y cyfathrebu rhwng y panel a Bwrdd Chwaraeon Cymru gan gadeirydd y panel ac aelod wedi'i enwebu o'r Bwrdd. Mae cadeirydd y panel hefyd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Chwaraeon Cymru i gynrychioli llais yr ieuenctid, ac yn yr un modd, mae'r aelod bwrdd wedi'i enwebu yn mynychu'r panel i sicrhau cyfathrebu cyson a pherthynas gadarn.

Ers sefydlu Panel Ieuenctid Chwaraeon Cymru yn haf 2021, mae'r panel wedi cyfarfod deirgwaith. Mantra'r panel yw 'ar gyfer y bobl ifanc, gan y bobl ifanc', ac os yw'n bosibl caiff yr agenda ei siapio gan y panel gyda chefnogaeth staff Chwaraeon Cymru. Mae'r eitemau ar yr agenda wedi cynnwys y canlynol:

- Cwricwlwm Newydd Ysgolion
- Ysgolion Bro
- Arolwg Chwaraeon Ysgol
- Comisiynydd Plant
- Rhaglen y Llysgenhadon Ifanc
- Gwaddol y Panel Ieuenctid

Mae llais ieuenctid wedi'i gofnodi o eitemau agenda o'r fath ac wedi'i ystyried yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae adborth y Bwrdd wedi tynnu sylw at sawl newid oherwydd cyfranogiad y panel. Er enghraifft, mae cwestiynau Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 wedi'u diwygio oherwydd mewnbwn gan y grŵp. Yn ogystal, mae'r panel wedi gallu rhannu eu profiadau o Raglen y Llysgenhadon Ifanc fel rhan o adolygiad cenedlaethol, a fydd yn sail i arweinyddiaeth ieuenctid yn y dyfodol yng Nghymru. Bydd y panel yn parhau i sicrhau amlygrwydd i lais ieuenctid ac mae'n bwriadu gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant a'r Gweinidog Addysg yn ystod y flwyddyn nesaf.

## AROLWG CHWARAEON YSGOL 2022

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn un o'r cyfleoedd mwyaf, y pen, yn y byd i bobl ifanc gael lleisio eu barn ar chwaraeon. Ar Fawrth 28ain 2022 lansiwyd y pumed arolwg, gan wahodd ysgolion ledled Cymru i gymryd rhan. Wedi'i seilio ar fod yn berson-ganolog, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon, a rhoi dechrau gwych i bob person ifanc, mae'r arolwg yn helpu i ddeall a gwireddu ein huchelgais o fod yn genedl actif lle gall pawb gael mwynhad oes o chwaraeon.

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn arolwg cenedlaethol ar-lein, sy'n ymddiddori'n bennaf yn yr agweddau, yr ymddygiadau a'r cyfleoedd sydd gan bobl ifanc mewn perthynas â chwaraeon. Mae'r arolwg nid yn unig yn ein helpu ni a'r sector i ddeall pwy, ble, a sut mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon, ond mae hefyd yn ein helpu i 'adrodd' a 'gwerthu' stori gref chwaraeon, ac yn bwysig ar gyfer yr arolwg y tro hwn, mae'n rhoi gwybodaeth i ni am y effaith y pandemig.

Mae'r arolwg yn gofyn pa chwaraeon mae'r disgyblion wedi cymryd rhan ynddynt (gan gynnwys ble a pha mor aml), pa chwaraeon yr hoffent wneud mwy ohonynt, a chyfres o gwestiynau lles gan gynnwys mwynhad o chwaraeon mewn gwahanol leoliadau, eu hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon newydd, a rhwystrau i gymryd rhan mewn chwaraeon, ymhlith llawer o rai eraill. Mae dwy ran i'r arolwg, gan gynnwys arolwg a gwblheir gan ddisgyblion ac arolwg a gwblheir gan athro. Gwahoddir holl ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Cymru i gymryd rhan – a hefyd ysgolion annibynnol ar gais – a chaiff disgyblion blynyddoedd 3 i 11 gyfle i rannu eu llais.

Cynhaliwyd yr arolwg ddiwethaf yn 2018 a chymerodd mwy na 120,000 o ddisgyblion o fwy na 1,000 o ysgolion yng Nghymru ran. Er bod yr arolwg yn hynod lwyddiannus, roeddem eisiau deall pa welliannau y gellid eu gwneud ar gyfer eleni. Yn dilyn hynny, buom yn ymgynghori ag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn hydref 2020 i ddeall rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r arolwg, a lle gellid gwneud gwelliannau. Bu i'r broses ymgynghori honno ddylanwadu ar y gwaith o baratoi ar gyfer Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022, gan awgrymu newidiadau i'r modd y caiff yr arolwg ei gyflwyno, y broses o ddosbarthu'r canlyniadau, ac i'r holiadur ei hun. Mae adroddiad yr ymgynghoriad i'w weld ar ein gwefan.





Mewn ymateb pellach i'r ymgynghoriad, arolygwyd pob agwedd ar yr arolwg yn fanwl a'i fireinio, gan arwain at gyfres o welliannau i'r holiadur, y gwaith maes, ac adrodd ar yr arolwg. Er nad yw'n rhestr gyflawn, mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Un arolwg hawdd ei ddarllen i bawb, gan gynnwys delweddau drwy gydol yr arolwg
- Profi a diweddaru'r rhestr o chwaraeon
- Ychwanegwyd 'cwestiwn gwirio' cyfranogiad chwaraeon
- Ychwanegwyd cwestiwn amledd chwaraeon
- Sefydlu 'cwestiynau craidd' a'u grwpio ar ddechrau'r arolwg
- Cyfnod arolwg estynedig (17 wythnos)
- Awdurdodau lleol i dderbyn dolenni ysgolion wythnos cyn yr ysgolion
- System fonitro fyw ar gael i bob ysgol (gan gynnwys yr ymatebion sydd eu hangen)
- Llinell gymorth bwrpasol dros y ffôn ac ar e-bost ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol
- Ysgolion i dderbyn adroddiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gwaith maes ddod i ben
- Awdurdodau lleol i dderbyn adroddiadau ysgol / trosolwg data ar yr un pryd ag ysgolion
- Cyrff rheoli cenedlaethol ac etholaethau i dderbyn adroddiadau unigol
- Dosbarthu tablau sy'n cyflwyno gwybodaeth sy'n berthnasol i'r model buddsoddi newydd yn unig

Mae newidiadau i'r holiadur ei hun wedi mynd drwy broses dreialu drylwyr hefyd. Drwy gydol gaeaf 2021/22, cynhaliwyd arsylwadau personol o ddisgyblion yn cwblhau yr arolwg gyda mwy na 100 o ddisgyblion o 12 ysgol ledled Cymru. Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac ysgolion o ardaloedd o amddifadedd uchel.

Bydd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 yn weithredol o 28ain Mawrth tan 22ain Gorffennaf 2022, gydag adroddiadau unigol yn cael eu rhannu ag ysgolion yn Haf 2022, ac adroddiadau cenedlaethol, awdurdodau lleol, cyrff rheoli cenedlaethol ac etholaethau yn cyrraedd yn hydref 2022.




mitre
adidas

# CYMUNEDAU CYDLYNOL A CHYSYLLTIEDIG

Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cysylltu cymunedau, yn meithrin undod cymdeithasol, ac yn darparu llwyfan ar gyfer newid cymdeithasol. Mae chwaraeon hefyd yn cyfrannu cyfalaf economaidd at gymunedau ac yn mynd i'r afael ag elfennau cymdeithasol iechyd fel troseddu, tlodi ac anghydraddoldeb systemig.

**Eleni, rydym wedi cyflymu ein gwaith i wneud y canlynol:**

- Datblygu dull Partneriaeth Chwaraeon ranbarthol o weithredu.
- Sefydlu Chwaraeon Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

## EIN GWAITH YN DATBLYGU DULL PARTNERIAETH CHWARAEON O WEITHREDU

Bydd Partneriaethau Chwaraeon yn trawsnewid y ffordd y mae chwaraeon cymunedol yn cael eu datblygu, eu cyflwyno, eu harwain a'u cyllido – gan ymateb i anghenion pob cymuned o fewn 5 rhanbarth ledled Cymru. Eleni, rydym wedi cyflymu'r **cynnydd** tuag at greu'r Partneriaethau Chwaraeon hyn.

Drwy Bartneriaethau Chwaraeon, rydym yn cynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy gymryd camau i **atal** anghydraddoldeb o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru.

Gyda'r dasg o sicrhau newid system, byddant yn gatalydd i fynd i'r afael â 2 fater hirsefydlog:

- Sicrhau bod y gefnogaeth a'r cyfleoedd priodol yn eu lle ar gyfer y rhai nad ydynt yn actif yn gorfforol yn rheolaidd gyda ffocws clir ar ddileu rhwystrau i'r rhai sydd angen yr help mwyaf.
- Cymryd camau i fodloni'r galw cudd uchel gan y rhai sy'n actif ond sydd eisiau gwneud llawer mwy.

Mae Partneriaeth Chwaraeon yn sicrhau **cydweithrediad** rhanddeiliaid allweddol o fewn rhanbarth penodol, sy'n deall pwysigrwydd ac yn canolbwyntio ar gyflawni buddion chwaraeon a gweithgarwch corfforol. O dan arweiniad gwybodaeth, byddant yn darparu arweinyddiaeth strategol a chynllunio ar lefel ranbarthol, gyda phwrpas cyffredin, ar lefel leol, y gall pawb gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy amrywiaeth o gyfleoedd sy'n diwallu eu hanghenion orau.

O fis Mawrth 2022 ymlaen, mae Chwaraeon Gogledd Cymru wedi bod yn weithredol fel y rhanbarth cyntaf i "fynd yn fyw", gyda strwythur arweinyddiaeth a Llywodraethu newydd yn ei le sy'n cynrychioli grŵp amrywiol o randdeiliaid. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo bellach i ddefnyddio gwybodaeth a data cyfredol i fireinio a chyflwyno dull gweithredu rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, sydd wir yn diwallu anghenion a galw lleol ac sy'n codi proffil chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn symud ymlaen yn dda drwy'r camau datblygu gyda'r bwriad o gael ei sefydlu yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd y rhain yn cael eu dilyn yn agos gan ranbarthau Gwent a Chanolbarth y De, i gwblhau'r tirlun rhanbarthol newydd a chyffrous hwn.





## UCHAFBWYNTIAU O'N GWAITH SY'N CYSYLLTU CYMUNEDAU AR LEFEL AWDURDOD LLEOL

Mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn cael buddsoddiad gan Chwaraeon Cymru ac yn gwneud cyfraniad hollbwysig at y weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Maent yn bartner darparu arwyddocaol ac yn darparu cyfrwng effeithiol ar gyfer annog dull amlbartneriaeth o ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl Cymru.

Roedd y tirlun Covid-19 yn ystod 2021-22 yn un o newid cyson. Yn ystod y cyfnod hwn, dangosodd Awdurdodau Lleol gryn wydnwch, gan ddefnyddio gwybodaeth a dysgu i addasu i amgylchiadau sy'n newid yn barhaus – gan sicrhau bod darpariaeth a chefnogaeth yn cael eu cynnig i ysgolion a chymunedau.

# ASTUDIAETH ACHOS LLWYBR FFITRWYDD TEULUOL CHWARAEON GOGLEDD CYMRU

Mae Chwaraeon Gogledd Cymru wedi defnyddio buddsoddiad Chwaraeon Cymru i weithio drwy eu partneriaid darparu ac ysbrydoli teuluoedd i 'Fod yn Actif'.

Yn 2021, ehangodd tîm Byw Yn Iach Gwynedd eu llwybrau ffitrwydd teuluol sydd eisoes wedi'u sefydlu. Dewiswyd tri lleoliad ym mhob ardal yng Ngwynedd, Arfon, Dwyfor a Meirionnydd:

**LÔN LAS BETHESDA**

**LLANBERIS**

**GLYNLLIFON, LLANBERIS**

Bydd y llwybrau hyn yn cael eu lansio yn ystod Pasg 2022, gyda chwech arall i ddilyn yn yr haf. Fel rhan o'r lansiad, bydd pamffledi'n cael eu creu gyda phob llwybr yn cael eu mapio i deuluoedd eu dilyn a'u ticio ar ôl eu cwblhau, a chod QR a fydd yn cysylltu â thystysgrif cwblhau.

## EIN GWAITH I GYNYDDU CYRHAEDDIAD AC EFFAITH BUDDSODDIAD CYMUNEDOL

Yn 2021, cysylltodd Chwaraeon Cymru â'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Digidol a Chyhoeddus [CDPS] i ofyn am **gydweithredu** ar gwestiwn sylfaenol:

**Sut gall Chwaraeon Cymru gynyddu cyrhaeddiad ac effaith ein buddsoddiad cymunedol?**

Dechreuodd y **cydweithredu** ym mis Gorffennaf 2021 gyda'r cyfnod Darganfod, a thîm amlddisgyblaethol o bob rhan o Chwaraeon Cymru a'r CDPS yn cael ei sefydlu.

Nid neidio am atebion oedd nod y cyfnod Darganfod, ond, yn hytrach, dechrau drwy ddeall anghenion defnyddwyr a'r sefydliad drwy ymchwil defnyddwyr. Yn ystod y cyfnod Darganfod, fe wnaethom nodi tri phrif grŵp defnyddwyr:

- Defnyddwyr presennol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid
- Defnyddwyr presennol a oedd yn aflwyddiannus wrth wneud cais am gyllid a,
- Defnyddwyr posibl nad ydynt wedi gwneud cais am gyllid a allai fod yn gymwys.

Yn ystod y cyfnod o 8 wythnos, cawsom 228 o ymatebion i'r arolwg a chynhaliwyd 59 o gyfweliadau ansoddol ar draws y tri grŵp defnyddwyr hynny. Buom hefyd yn siarad â 58 o bartneriaid cymunedol ac Awdurdodau Lleol, gyda chwe sefydliad

sector cyhoeddus a saith corff trydydd sector sy'n darparu cyllid grant eu hunain, a chynhaliwyd sgyrsiau mewnol am ein prosesau presennol, ein cyrhaeddiad digidol, a'n hanghenion gwybodaeth a gwerthuso.

Drwy ein hymchwil gwelsom gyfyngiadau cyrhaeddiad a dealltwriaeth gyfredol o grantiau cymunedol Chwaraeon Cymru. Hefyd tynnwyd sylw gennym at 'bwyntiau problemus' yn y broses ymgeisio gan ddod i'r casgliad bod lle i wella yn y broses o un pen i'r llall. Buom yn edrych ar unrhyw broblemau technegol posibl sy'n cyfrannu at rwystredigaeth defnyddwyr, gan ddeall bod anallu'r system bresennol i arddangos data grant perthnasol mewn 'amser real' yn profi'n rhwystr i broses effeithlon.

Yn dilyn y llwyddiant a'r wybodaeth a gasglwyd yn y cyfnod Darganfod, fe wnaethom ddewis parhau â'r gwaith i gyfnod Alffa 12 wythnos. Er bod prif nod y prosiect wedi aros yn gyson (h.y., cynyddu cyrhaeddiad ac effaith ein buddsoddiad cymunedol), roedd gan y cam hwn o'r gwaith dri amcan allweddol:

1. Adeiladu, profi ac ailadrodd prototeip o broses ymgeisio o un pen i'r llall sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac yn cyflawni canlyniadau sefydliadol.

2. Gweithio'n agos gyda chyfathrebu digidol, partneriaid, a sefydliadau eraill i brofi sut gall cyrhaeddiad Chwaraeon Cymru ddod yn fwy effeithiol.

3. Gweithio drwy sut gall newidiadau i'r system dechnegol ddiwallu anghenion y sefydliad a defnyddwyr i raddau helaethach.

Er mwyn rhoi sylw i'r amcanion hyn, gwnaed addasiadau i'r tîm, gan gynnwys recriwtio dylunydd rhyngweithio ac ymchwilydd defnyddwyr, dylunydd cynnwys, a chefnogi dau ymchwilydd iau. Aethom ati i adeiladu, profi a gwerthuso pedwar prototeip gwahanol gyda 15 o ddefnyddwyr ar wahân o wahanol chwaraeon, daearyddiaethau a phrofiadau. Buom hefyd yn siarad â'r canlynol:

- Uwch unigolion yn fewnol i edrych ar y polisïau a'r rhwymedigaethau llywodraethu sydd yn eu lle ar gyfer buddsoddiad cymunedol.
- Y tîm cyfathrebu i edrych ar y cynnwys a'r ddadansoddeg sydd ar gael ar wefan Chwaraeon Cymru mewn perthynas â buddsoddiad cymunedol.
- Staff sy'n delio â phartneriaid i ddeall y tirlun presennol o ran cyrhaeddiad, y gweithgarwch a ddarperir, ac ymgysylltu â chymunedau lleol.
- Cyflenwr presennol y system grantiau i ddeall ei ddyheadau ar gyfer y cynnyrch yn y dyfodol.
- Sefydliadau cyllido am eu profiad gyda systemau grantiau amrywiol.

Penllanw'r gwaith hwn a'r sgyrsiau hyn oedd cyfres o argymhellion gan gynnwys yr angen am barhau â'r gwaith o ddylunio a gwerthuso siwrnai defnyddiwr o un pen i'r llall, caffael a gweithredu system ymgeisio a rheoli grantiau newydd, a gwneud newidiadau technegol i'r system bresennol yn y tymor byr. Mae'r argymhellion hyn wedi arwain at Chwaraeon Cymru a'r CDPS yn paratoi ar gyfer cam nesaf y gwaith, sydd wedi cael yr enw annwyl Alffa+. Bydd yn canolbwyntio'n llwyr ar ddylunio a gwerthuso gweddill y broses ymgeisio a dechreuodd ddiwedd mis Chwefror 2022.

# EIN GWAITH I DDATBLYGU PARTNERIAETHAU NEWYDD

## PARTNERIAID CENEDLAETHOL NEWYDD

Er mwyn gwneud chwaraeon yn hygyrch ac yn deg i bawb yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod angen i ni ddeall yn well pa atebion y gellir eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghydraddoldebau cymdeithasol. Rydym yn parhau i ddatblygu hyn drwy ein rhwydwaith cenedlaethol presennol o bartneriaid a gyllidir, a thrwy barhau i chwilio am gyfleoedd newydd i gyrraedd pobl, llefydd a sefydliadau newydd.

**Drwy ymchwilio i gyfleoedd partneriaeth ac ymgysylltu newydd yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud y canlynol:**

1. Buddsoddi **£200,000** drwy ein Cronfeydd Cyfalaf ar gyfer 3 Phartner Cenedlaethol i **gydweithredu** a'n helpu i ddeall rhwystrau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau gyda ffocws ar hil ledled Cymru.

2. Cymryd rhan mewn sgyrsiau cadarnhaol gydag **20** o sefydliadau newydd i rannu gwybodaeth, cysylltu personél y sector chwaraeon ac edrych ar amrywiaeth o gyfleoedd ymgysylltu a phartneriaeth. Mae'r partneriaid hyn yn amrywio o gefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches i sefydliadau newid ymddygiad.

3. Buddsoddi **£32,000** yn **SPORTED** ar gyfer prosiect 12 mis yn treialu rhaglen wirfoddoli. Sported yw'r rhwydwaith mwyaf o grwpiau chwaraeon cymunedol yn y wlad sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

# ASTUDIAETH ACHOS Y GYMDEITHAS NOFIO AR GYFER POBL DDUON A CHWARAEON CYMRU YN GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Yn gynnar yn 2022, cyhoeddodd y Gymdeithas Nofio ar gyfer Pobl Dduon (BSA) a Chwaraeon Cymru bartneriaeth newydd gyda'r nod o wneud nofio a chwaraeon dŵr eraill yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru.

Ystyrir bod y bartneriaeth yn garreg filltir i'r ddau sefydliad. Nid yn unig y mae'r cytundeb yn cynrychioli ymrwymiad sylweddol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol yn y sector dŵr, ond dyma'r tro cyntaf hefyd i'r BSA gael presenoldeb yng Nghymru.

Bydd y bartneriaeth yn arwain at greu swydd Rheolwr Cyflawni Rhaglenni BSA wedi'i lleoli ym mhrifddinas Cymru, Caerdydd, lle mae prif swyddfa Chwaraeon Cymru wedi'i lleoli hefyd. Nid yn unig y bydd y rôl yn sicrhau bod rhaglenni dŵr presennol y BSA yn cael eu datblygu yng Nghymru, ond hefyd bydd yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned drwy feithrin perthnasoedd hirhoedlog â chymunedau Affricanaidd, Caribïaidd ac Asiaidd yn Ne Cymru.

Bydd y gwaith hefyd yn cyfrannu at weithgareddau ymchwil cymdeithasol rhagarweiniol ar draws Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, a fydd yn bwydo i mewn i ymchwil a chanfyddiadau y mae'r elusen eisoes yn eu cynnal yn Lloegr.

> **AR HYN O BRYD, MAE LLAI NA 3% O ACHUBWYR BYWYD, HYFFORDDWYR NOFIO A GWIRFODDOLWYR YN Y SECTOR YN DOD O GYMUNEDAU AFFRICANAIDD, CARIBÏAIDD AC ASIAIDD**

Yn ogystal â'i rhaglen ymchwil a'r clinigau dŵr, mae'r BSA hefyd yn bwriadu mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hiliol yng ngweithlu gweithgareddau dŵr y DU drwy gynyddu nifer y bobl o dras Ddu ac Asiaidd 25% erbyn 2024.

## EIN GWAITH YN DARGANFOD 'BETH SY'N BWYSIG' I BARTNERIAID

Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio ein sylw'n benodol ar ddull o weithio mewn partneriaeth a oedd yn ymgorffori egwyddor a chwestiwn craidd 'Beth Sy'n Bwysig?' Mae hyn wedi golygu cynnal cyfres o sgyrsiau gyda'n partneriaid ynghylch: Beth sy'n bwysig iddynt, beth sy'n bwysig i ni, a lle rydym yn rhannu amcanion cyffredin craidd. Mae'r sgyrsiau hyn wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau a nodir yn ein cynllun busnes i sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n **gydweithredol** ac yn **integreiddio** anghenion y sector cyfan.

## CHWARAEON I BAWB

Eleni, ymunodd Chwaraeon Cymru â Chymdeithas Bêl Droed Cymru i hyrwyddo **cydraddoldeb** LGBTQ+. Nod ymgyrch Y Carrai Enfys yw gwneud chwaraeon yn gêm i bawb, a chanolbwyntio hefyd ar ysbrydoli, addysgu ac annog cefnogaeth i gynhwysiant LGBTQ+ mewn chwaraeon.

# ASTUDIAETH ACHOS GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AG URDD GOBAITH CYMRU

Mae ein partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru yn arwyddocaol bwysig. Eleni dathlodd yr Urdd ganmlwyddiant o gyflwyno amrywiaeth o gynigion i bobl ifanc Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

## ELENI, ROEDD Y GWAITH GYDA'R URDD YN CANOLBWYNTIO AR Y CANLYNOL:

### DARPARIAETH GYMUNEDOL

Y ffocws cenedlaethol cychwynnol ar ôl cyfyngiadau'r pandemig oedd cael y 15,000 o gyfranogwyr wythnosol yn ôl i weithgareddau cyfrwng Cymraeg rheolaidd drwy ddarpariaeth chwaraeon gymunedol helaeth ac amrywiol.

**Blynyddoedd cynnar:** Rhaglen genedlaethol Dechrau'n Iach, Byw yn Iach i ymgysylltu â meithrinfeydd a chanolfannau Dechrau'n Deg ledled Cymru i ymgorffori rhaglen o Lythrennedd Corfforol a llesiant.

**Chwarae yn y Gymraeg:** Rhaglen genedlaethol o hyfforddiant arweinyddiaeth (blynyddoedd ysgol 5 a 6) sy'n darparu gweithgarwch a datblygiad sgiliau Cymraeg drwy chwaraeon. Darperir llwybrau cynnydd i ddarpariaeth gymunedol yr Urdd.

**Gweithgareddau Awyr Agored:** Wedi darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored newydd ar draws ardaloedd trefol a gwledig anodd eu cyrraedd yng Nghymru.





## MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB – AMDDIFADEDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Drwy eu rhwydwaith cenedlaethol o gyfranogiad cymunedol, mae'r Urdd wedi nodi bod mwy na 50% o'u darpariaeth mewn ardaloedd o amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru). Mae'r Urdd yn targedu rhaglenni mewn ardaloedd Trefol a Gwledig ledled Cymru gyda ffocws ar gynaliadwyedd a chyfleoedd cynhwysol i blant a phobl ifanc o bob cefndir cymdeithasol a diwylliannol.

## CYNHWYSIANT

- Cyflwyno digwyddiadau cyfres insport cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith ledled Cymru.
- Parhau i gynnig darpariaeth Gymunedol gwbl gynhwysol.
- Gwella a datblygu ein deunyddiau marchnata i gynnwys gweithgarwch corfforol cynhwysol a chodi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth gynhwysol rydym yn ei chynnig.
- Mewn partneriaeth â ChAC gweithredu'r Adnodd Chwarae Gyda'n Gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## MERCHED A GENETHOD

Bydd yr Urdd yn parhau i ddatblygu a thyfu rhaglen genedlaethol i ysbrydoli, cefnogi a grymuso merched a genethod ifanc. Mae'r gwaith hwn wedi'i sefydlu o dan faner #FelMerch ac roedd y Gynhadledd Genedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022 wedi creu proffil a hwb gwych. Mae'r rhaglen newydd hon yn cynnwys gweithgareddau wyneb yn wyneb a digidol wythnosol a hybiau gwyliau; fforymau rhanbarthol a chenedlaethol; a rhaglen hyfforddiant arweinyddiaeth i ferched. Mae'r Urdd hefyd wedi pennu'r targed cenedlaethol o gael mwy o ferched a genethod yn heini drwy gyfranogiad rheolaidd, a bydd y cynnig o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi ac yn helpu i gydbwyso'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn chwaraeon. Mae gwybodaeth yr Urdd drwy brosiectau a gyflawnwyd yn llwyddiannus yn dangos bod merched sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn teimlo'n fwy hyderus yn cymryd rhan mewn gweithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

# SECTOR CHWARAEON GWYDN

Un rhan o'n rôl fel y sefydliad cenedlaethol sy'n **gyfrifol** am hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru yw meddwl yn strategol am yr hyn y gallai'r dyfodol ei gynnig i'n sector. Eleni, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith i ddeall sut dylai'r ddarpariaeth chwaraeon barhau i addasu i ddiwallu anghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

**Eleni, rydym wedi cyflymu ein gwaith i gyflawni'r canlynol:**

- Deall y prif dueddiadau cymdeithasol, technolegol, digidol, amgylcheddol, economaidd a demograffig sy'n effeithio ar chwaraeon.
- Deall y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i adeiladu gweithlu chwaraeon **gwydn**.

## EIN GWAITH YN DEALL GWYDNWCH Y SECTOR

### SYLLU YN Y DYFODOL

Er mwyn sefydlu sut gall Chwaraeon Cymru gefnogi datblygu 'sector **gwydn**' yn 2021 buom yn gweithio gyda Cavill Associates ar brosiect casglu gwybodaeth i ddeall dau gwestiwn:

- Beth yw'r prif dueddiadau cymdeithasol, technolegol, digidol, amgylcheddol, economaidd, demograffig (ac eraill) rydym yn eu gweld a fydd yn effeithio ar chwaraeon a hamdden gorfforol yn y 5 i 10 mlynedd nesaf?
- Beth fu rôl Covid-19 wrth newid/cyflymu'r tueddiadau hyn?

Nid ceisio rhagweld y dyfodol oedd pwrpas y prosiect hwn, ond yn hytrach dadansoddi tueddiadau a allai effeithio ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Cafodd yr wybodaeth a ddeilliodd o'r gwaith hwn ei chrynhoi mewn adroddiad sydd ar gael i'w ddarllen, a bydd yn sail i'r ffordd orau o gefnogi gwaith ein partneriaid wrth symud ymlaen.

Yn dilyn cynhyrchu'r adroddiad, trefnwyd gweithdai 'Syllu ar y dyfodol' ar gyfer ein partneriaid (Cyrff Rheoli Cenedlaethol, partneriaid cenedlaethol, a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol) ym mis Medi 2021. Roedd y gweithdai **cydweithredol** a oedd yn anelu at gynnwys partneriaid yn seiliedig ar themâu adroddiad Cavill Associates, yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

1. Amgylchedd ac anghenion trafnidiaeth.
2. Tueddiadau cymdeithasol ac economaidd; a
3. Tueddiadau technoleg.

Roedd y gweithdai'n llwyfan ar gyfer trafodaeth wrth i ni archwilio sut gall gwahanol feysydd gael effeithiau amrywiol, a'r hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd wrth ymateb iddynt.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r sesiynau wedi galluogi i ni fwrw ymlaen â gwaith cynllunio a datblygiadau sy'n ymateb i anghenion y sector. Ar hyn o bryd rydym yn archwilio, gyda thrydydd partïon, sut gallwn gefnogi partneriaid i wella eu gwybodaeth ddigidol yn ogystal ag ystyried sut gallwn gefnogi partneriaid wrth iddynt anelu at wella eu cynaliadwyedd amgylcheddol hwy/y sector.

## EIN DULL O WEITHREDU GYDA THRAWSNEWID DIGIDOL

Rydym yn cydnabod yr angen am gefnogi'r sector i ymateb i ddatblygiadau digidol. Eleni, rydym wedi creu cyfleoedd dysgu i lawer o staff sy'n gweithio gyda phartneriaid, drwy ein perthynas â'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o gynllunio gwasanaethau a phwysigrwydd ymchwil defnyddwyr ar draws y sefydliad i'n galluogi i gael gwell sgyrsiau gyda phartneriaid am eu hanghenion digidol. Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliad arbenigol i greu 'llyfr chwarae' sy'n tynnu sylw at y meysydd allweddol i'n partneriaid eu hystyried yn gysylltiedig â'u gwaith digidol. Os yw partneriaid wedi nodi anghenion digidol penodol, rydym wedi gallu helpu i nodi a helpu i ddod o hyd i'r sgiliau sydd arnynt eu hangen i symud ymlaen. Yn ogystal, rydym wedi parhau i ddarparu cyfleoedd hyfforddi i gefnogi partneriaid gyda'u cyfathrebu digidol.

## DYFODOL CYNALIADWY PLAS MENAI

Rydym wedi parhau i fwrw ymlaen â'n hymdrechion tuag at gynaliadwyedd yn wyneb yr argyfwng hinsawdd eleni, gyda swm o **£1.3 MILIWN** o fuddsoddiad cyfalaf wedi'i glustnodi i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae ein canolfan ym Mhlas Menai ar hyn o bryd yn gosod pympiau gwres ffynhonnell daear a dŵr yn eu lle, i'w cwblhau o fewn y flwyddyn nesaf. Drwy hyn, bydd gostyngiad mewn allyriadau carbon a defnydd ynni.

Yn ogystal, mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth Datgarboneiddio gyntaf Chwaraeon Cymru wedi dechrau fel elfen allweddol o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2022-23.

## MEITHRIN GWYDNWCH DRWY DDATBLYGU POBL

### DIWYLLIANT IACH YN FEDDYLIOL YN Y GWAITH

Yn ogystal â llawer o bobl eraill mewn cymdeithas, mae arweinwyr o fewn chwaraeon wedi wynebu heriau a straen ychwanegol yn ystod y pandemig. Yn 2021, fe wnaethom sefydlu rhaglen o sesiynau wyneb yn wyneb, wedi'u hwyluso gan seicolegydd ag arbenigedd yn y maes cefnogi arweinwyr i berfformio ar eu gorau yn ystod cyfnod heriol. Bu 12 o Brif Weithredwyr o sefydliadau partner yn **ymwneud** â hyn, gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol i ehangu'r cymorth hwn i'r rhai mewn swyddi arweiniol cenedlaethol mewn sefydliadau partner yn 2022.

Rydym hefyd wedi cefnogi ein staff ein hunain drwy nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gweithdai ar gyfer delio â straen, erthyglau rheolaidd yn canolbwyntio ar lesiant ac iechyd meddwl yn ein cylchlythyr misol, a sesiwn wedi'i hwyluso yn cefnogi cyflogeion i ofalu am eu llesiant a lleihau straen yn ystod cyfnodau o newid.

# ASTUDIAETH ACHOS ARWEINYDDIAETH A CHWARAEON

## "OS MAI NEWID YW'R ELFEN GYSON NEWYDD, SUT GALLWN NI ARFOGI EIN HUNAIN A'R RHAI O'N CWMPAS I BERFFORMIO'N DDA YN YR AMGYLCHEDD HWN?"

Ym mis Mai 2021, cyflwynwyd Cyfres Ddysgu Chwaraeon Cymru gennym yn seiliedig ar y cwestiwn hwn.

Cynhaliwyd Cyfres Ddysgu Rithwir gennym dros gyfnod o dridiau, i'n holl bartneriaid a staff Chwaraeon Cymru ei mynychu. Roedd yn cynnwys sesiynau byw, deunydd wedi'i recordio ymlaen llaw, podlediadau, a deunydd darllen a argymhellir, gyda'r cynnwys yn ymdrin â phynciau a oedd yn cyd-fynd ag anghenion ein partneriaid, blaenoriaethau ein cynllun busnes, a'n bwriadau strategol.

Hefyd yn 2021 lansiodd Chwaraeon Cymru ei raglen arweinyddiaeth gyntaf erioed wedi'i thargedu'n benodol at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn chwaraeon. Nod y rhaglen 'Dod yn Arweinydd Cynhwysol', sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd gan AKD Solutions ar ran Chwaraeon Cymru, yw herio arweinwyr i ddatblygu eu sgiliau arwain cynhwysol, a chreu amgylcheddau gwaith cynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae'r rhaglen yn para tan fis Gorffennaf 2022.

Yn fewnol, buom hefyd yn **cydweithredu** ag amrywiaeth o gyrff noddedig eraill i ddarparu rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategol ar gyfer ein staff.

## DATBLYGU'R SEILWAITH AR GYFER CHWARAEON YN Y DYFODOL

Yn 2021-22, buddsoddodd Llywodraeth Cymru **£7 Miliwn** a

**£4.5 MILIWN**

ychwanegol o gyllid cyfalaf yn Chwaraeon Cymru, a ddefnyddiwyd i gefnogi amrywiaeth o brosiectau i wella cyfleusterau chwaraeon. Bydd y prosiectau o bob rhan o Gymru a ddewiswyd i dderbyn cyllid yn helpu i gyflawni'r uchelgais o ddarparu mynediad i amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel i bob person yng Nghymru.

Ymhlith y datblygiadau chwaraeon sy'n cael eu cefnogi mae lleoliadau aml-chwaraeon, traciau beicio, lleoliadau dan do, traciau rhedeg, pyllau nofio, a chaeau 3G, ymhlith eraill.

Yn dilyn proses mynegi diddordeb a gynhaliwyd ar ddiwedd 2021, nodwyd prosiectau blaenoriaeth. Cytunodd panel o bob rhan o'r sector chwaraeon yng Nghymru ar fuddiolwyr y cyllid hwn, gan sicrhau dosbarthiad daearyddol a bod gwahanol chwaraeon a gweithgareddau'n cael eu cefnogi.

## BUDDSODDIAD CYFALAF YN BMX

Bydd trac BMX safonol cenedlaethol yn cael ei ddatblygu yng Nghaerdydd drwy fuddsoddiad diweddar yn Chwaraeon Cymru, gyda

# £978,000

o gyllid Cyfalaf. Gyda BMX yn dod yn fwy poblogaidd ers bod yn y Gemau Olympaidd am y tro cyntaf yn 2012, mae Beicio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen am drac cenedlaethol yng Nghymru. Bydd y cyfleuster hwn nawr yn galluogi iddynt gynnal cystadleuaeth ar lefel genedlaethol a bydd yn rhoi cyfle i feicwyr yng Nghymru ddechrau rasio. Bydd y datblygiad yn cael ei arwain gan Glwb Rasio BMX Caerdydd ochr yn ochr â Beicio Cymru gyda'r trac yn cael ei adeiladu yn Llanrhymni.

## YMATEB I'R ELFENNAU

Roedd effaith Storm Eunice a Storm Franklin ar chwaraeon yng Nghymru ym mis Chwefror 2022 yn sylweddol. Diolch i'r Loteri Genedlaethol, bu modd i ni ymateb o fewn oriau i rybuddion tywydd garw, drwy agor cronfa ddiogelu benodol ar gyfer stormydd.

Dyrannwyd grantiau i 195 o glybiau i gyd i helpu gydag atgyweirio adeiladau clybiau, offer ac eitemau eraill a oedd yn nannedd yr elfennau. Dyfarnwyd

# £506,706

drwy'r gronfa hon i helpu clybiau i adfer o'r difrod.



# CYMRU AR LWYFAN Y BYD

Mae chwaraeon ar gyfer pawb – o bobl nad ydynt yn gweld eu hunain fel rhai medrus mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau. Rydym yn credu yn y pen draw mai dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ynghyd â darpariaeth aml-chwaraeon sy'n gosod cynhwysiant wrth galon y ddarpariaeth, fydd ein llwyddiant ar lwyfan y byd.

**Eleni, rydym wedi cynyddu ein gwaith i wneud y canlynol:**

- Edrych ar lwyddiant chwaraeon o safbwynt cynhwysiant, gan sicrhau bod dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sail i'r hyn rydym yn ei wneud, a sut rydym yn ei wneud.
- Dathlu llwyddiannau cyfannol ein hathletwyr a'n timau chwaraeon.

## EIN GWAITH YN ATHROFA CHWARAEON CYMRU

Mae'r Athrofa yn dîm o ymarferwyr gwyddoniaeth a meddygaeth. Yn hanesyddol, roedd rhai chwaraeon yng Nghymru yn derbyn gwasanaethau'r Athrofa yn seiliedig ar eu statws blaenoriaeth yn unol â'r strategaeth chwaraeon elitaidd hanesyddol sydd bellach wedi'i disodli. O dan y system hon dyrannwyd casgliad penodol o wasanaethau cefnogi'r Athrofa i nifer cyfyngedig o chwaraeon, a gyflwynwyd gan dîm amlddisgyblaethol, mewn partneriaeth â phersonél chwaraeon. Arweiniodd hyn at lawer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth i gyflawni darparu gwasanaeth effeithiol, yn enwedig o ran llwyddiant ar lwyfan y byd ac ennill medalau mewn Gemau Olympaidd a Chymanwlad.

Yn unol â strategaeth Chwaraeon Cymru, ac fel rhan o'n cyfraniad at y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, yn 2021-22 cafodd gwasanaethau'r Athrofa eu blaenoriaethu i ganolbwyntio ar brosiectau i effeithio ar **Ddatblygiad Cynhwysol Athletwyr**

## EIN DULL O WEITHREDU GYDA SYSTEMAU CHWARAEON CYNHWYSOL

Yn y dull system chwaraeon gynhwysol (ISS) - bydd cefnogaeth unigol a phwrpasol i athletwyr yn cael ei darparu i athletwyr Cymru ar Raglen Safon Byd UK Sport (athletwyr WCP) - bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio adnoddau'r Athrofa ar IAD.

Rhwng nawr a Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr athletwyr hynny nad ydynt ar WCP ond sydd wedi cael mynediad at gefnogaeth unigol fel rhan o'u paratoadau hyd yma, yn parhau i gael eu cefnogi hyd at y Gemau.

Rydym yn gweld datblygiad cyfannol Athletwyr fel y broses o helpu pobl i wella mewn chwaraeon. Rydym eisiau creu amgylcheddau sy'n darparu profiadau cadarnhaol sy'n galluogi pobl i wella, a hefyd sicrhau buddion sy'n mynd y tu hwnt i chwaraeon iddynt. Mae IAD yn cyfeirio at y syniad bod pobl o gefndiroedd penodol yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd mewn rhaglenni perfformiad chwaraeon yng Nghymru. Rydym eisiau cefnogi gweithredu a newid sy'n galluogi rhaglenni perfformiad i ddod yn fwy cynhwysol i athletwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r dull hwn o weithredu wedi galluogi'r gwasanaethau i gyrraedd ystod ehangach nag erioed o'r blaen o gyrff rheoli, hyfforddwyr ac athletwyr yng Nghymru.


# ASTUDIAETH ACHOS
# PORTHOL PROSIECT PERFFORMIAD

Yn 2021 - 22 mae gwasanaethau'r Athrofa wedi ffurfio partneriaeth gyda chwmnïau technoleg CyberDuck ac Empyrean i ddarganfod anghenion defnyddwyr am borthol prosiect perfformiad. Er mwyn sicrhau ein bod wir yn wasanaeth a rennir sy'n gweithio ar draws y system yng Nghymru, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gyson ac yn dryloyw wrth ddefnyddio Gwasanaethau'r Athrofa. Bydd y Porthol Prosiectau Perfformiad yn ein cynorthwyo ni a'n partneriaid i gyflwyno, tracio ac adolygu prosiectau perfformiad drwy gydol eu cylch bywyd.

Mae cyfnod datblygu'r prosiect ar ben bellach, ac mae'n amser ei roi ar brawf! Rydym yn bwriadu gwneud hyn mewn dau gam gwahanol a byddwn yn cynnwys partneriaid yn hyn ar gyfer adborth yng nghanol 2022.

# ASTUDIAETH ACHOS
# BETH SY'N COGINIO YNG NGHEGIN YR ATHLETWYR?

Mae'r **cyfleuster Cegin Hyfforddi Athletwyr** yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi cael ei lansio eleni hefyd gyda sesiynau blasu cychwynnol dan arweiniad ein Maethegwyr Perfformiad ar gyfer Pêl Foli, Bocsio a Phêl Droed. Gall unrhyw gorff rheoli o Gymru archebu'r gegin i ymgorffori coginio mewn meithrin tîm a dysgu sgiliau newydd, gan ddatblygu'r person yn ogystal â'r athletwr.






# ASTUDIAETH ACHOS SYSTEM RHEOLI ATHLETWYR

Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus gyda Fusion Sports - Bocsio Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru, rydym wedi cytuno i gymeradwyo Smartabase fel y darparwr System Rheoli Athletwyr (AMS) sy'n cael ei ffafrio gennym. Mae'r AMS yn darparu platfform rheoli data, dadansoddeg a chyfathrebu canolog ar gyfer y CRhC a'r Partneriaid hynny sydd wedi nodi angen am gael mwy o wybodaeth a deallusrwydd o ran eu gweithgareddau datblygu athletwyr.

**MAE GOLFF CYMRU, TRIATHLON CYMRU A GYMNASTEG CYMRU YN Y CAMAU RHAGARWEINIOL O YMGORFFORI'R AMS YN EU RHAGLENNI PERFFORMIO PRIODOL, AC MAE GAN BOB UN OHONYNT EU GOFYNION UNIGRYW EU HUNAIN Y GALL SMARTABASE DDARPARU AR EU CYFER.**

Mae'r gallu i gael mynediad at lawer iawn o ddata perfformiad manwl gywir, credadwy a dilys yn cyflwyno cyfleoedd gwych i chwaraeon yng Nghymru fabwysiadu dull o weithredu sy'n cael ei arwain yn fwy gan wybodaeth wrth ddatblygu athletwyr.

Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn cefnogi mwy o Gyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaid i ddeall y cyfleoedd data sy'n bodoli ac wedyn yn ymgorffori'r AMS yn eu hamgylcheddau dyddiol.



# ASTUDIAETH ACHOS CYLCHLYTHYR DATBLYGU ATHLETWYR

Er mwyn mabwysiadu ein dull gwasanaethau a rennir o weithredu, a chysylltu'n rheolaidd â'r system chwaraeon, rydym wedi gwella ein sianelau dosbarthu, gan lansio'r cylchlythyr **'Datblygu Athletwyr**' yn benodol. Mae'r cylchlythyr yn cael ei ddarllen gan gynulleidfa eang; Arweinwyr Perfformiad, Hyfforddwyr Cenedlaethol, Hyfforddwyr Llwybr, Staff Cefnogi ac Ymarferwyr, o'r tu mewn i CRhC a Phartneriaid Allweddol. Mae'r cynnwys yn organig yn ei greadigaeth ac mae'n gwasanaethu'r pwrpas o wella'r wybodaeth a'r ymarfer sy'n gysylltiedig ag egwyddorion datblygiad cynhwysol athletwyr.

Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar archwilio sut rydym yn creu gofod i leisiau athletwyr gael eu mynegi a'u clywed, a sicrhau bod rhywun yn gwrando arnynt. Dan arweiniad yr Arweinydd Profiad Athletwyr, mae grŵp bach o athletwyr wedi dod at ei gilydd i roi hwb i gam darganfod y gwaith hwn yn 2021 a llunio beth a sut bydd y mecanwaith hwn yn gweithredu i ddylanwadu ar benderfyniadau Chwaraeon Cymru. Mae'r hyn a ddysgwyd gan y panel Athletwyr Ifanc a chomisiwn Athletwyr Tîm Cymru wedi bod yn amhrisiadwy.

## EFFAITH SEICOLEG GLINIGOL

Mae penodi Seicolegydd Clinigol i gefnogi Chwaraeon Cymru a'r ymarferwyr yn yr Athrofa wedi arwain at ddatblygiadau yn null y sefydliad o gefnogi iechyd a lles y meddwl athletwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd mae'r Seicolegydd Clinigol yn gweithio o fewn y Bwrdd Iechyd Prifysgol lleol sy'n darparu cyfleoedd parhaus ar gyfer datblygu perthnasoedd traws-sector sy'n anelu at gefnogi iechyd a lles y meddwl. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rôl y Seicolegydd Clinigol yn yr Athrofa ers cael ei benodi:

- Creu 'Gofod Cadw Mewn Cysylltiad', sef fforwm ar gyfer sgyrsiau am iechyd a lles y meddwl athletwyr sy'n blaenoriaethu penderfyniadau a rennir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ystyried opsiynau cefnogi.
- Cefnogaeth i ddatblygu Panel Iechyd a Lles y Meddwl a phresenoldeb yn y fforymau hyn i gynnig cyngor arbenigol, seicolegol gwybodus.
- Gwaith parhaus o ran cefnogi staff yr Athrofa i ddeall iechyd a lles y meddwl a sut i ymateb yn briodol a chefnogi hyn yn eu swyddi.
- Twf yn y cysylltiadau rhwng ac o fewn sectorau sydd â rôl mewn cefnogi iechyd a lles y meddwl.

# ASTUDIAETH ACHOS
# EFFAITH Y MISLIF AR CHWARAEON

## YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF MAE YMCHWIL WEDI PARHAU I GEFNOGI UNIGOLION I GYMRYD RHAN MEWN GWEITHGARWCH CORFFOROL YN YSTOD CYLCH Y MISLIF.

Cefnogodd Sefydliad Gwyddor Perfformio Cymru athletwyr Olympaidd i baratoi ar gyfer Tokyo ac ymgorffori symptomau a chamau cylch y mislif yn eu cynlluniau hyfforddi i sicrhau'r addasu gorau posibl, Atal anafiadau a pherfformiad cystadlu. Roedd hyn yn dilyn casglu data am brofiadau athletwyr elitaidd a chanfyddiadau am effaith cylch y mislif ar hyfforddiant a pherfformiad chwaraeon.

**YN EHANGACH, MAE UN AGWEDD SYLFAENOL WEDI CANOLBWYNTIO AR ADDYSG. MAE GWEITHDAI ADDYSG, GWEMINARAU AC ADNODDAU WEDI'U DARPARU I HYFFORDDWYR A STAFF CEFNOGI I WELLA GWYBODAETH AC YMWYBYDDIAETH O GYLCH Y MISLIF O FEWN CHWARAEON PERFFORMIAD A CHYMUNEDOL, GAN WEITHIO GYDAG UK COACHING I DDATBLYGU ADNODDAU GWYBODAETH AR-LEIN. MAE HYN WEDI CYNNWYS YMCHWIL GYDA HYFFORDDWYR BENYWAIDD I BENNU'R GEFNOGAETH DDIRIAETHOL, EMOSIYNOL A GWYBODAETH MAENT YN EI DARPARU I'W HATHLETWYR BENYWAIDD.**

Gyda'i gilydd, mae hyn wedi creu newid mewn canfyddiadau am gylch y mislif, gan ei Atal rhag bod yn bwnc tabŵ ac yn hytrach yn bwnc sy'n cael ei ystyried yn broses fiolegol normal sy'n rhan o amgylchedd agored a chefnogol mewn chwaraeon. Ochr yn ochr â hyn, mae ymchwil wedi edrych ar y ddarpariaeth bresennol o addysg mislif mewn ysgolion, gan nodi diffyg addysg, adnoddau, hyder ac amser i athrawon fel rhwystrau i ddarparu addysg cylch y mislif ddigonol ac addysgiadol.

Mae'r ymchwil wedi rhychwantu ar draws y gymuned, datblygiad athletwyr a chwaraeon perfformiad, gan gynyddu o ran cyflymder ymchwil a chefnogaeth. Yn bennaf mae'r gwaith hwn wedi anelu at gael effaith ehangach gan sicrhau nad yw iechyd a lles unigolion yn ystod cylch y mislif yn cael eu heffeithio'n negyddol oherwydd cylch y mislif.

# ASTUDIAETH ACHOS SYLW I HYFFORDDI

## ATHLETWR I HYFFORDDWR YN Y BYD ATHLETAU

Yn 2021, lansiodd Athletau Cymru nifer o raglenni datblygu hyfforddiant, gan gynnwys menter hyfforddi merched a llwybr Athletwr i Hyfforddwr i athletwyr cystadleuol Cymru ddatblygu i fod y genhedlaeth nesaf o hyfforddwyr. Nod y llwybr rhaglen athletwr i hyfforddwr yw sicrhau bod yr angerdd, yr wybodaeth a'r profiad fel athletwr yn cael eu bwydo'n ôl i'r gamp fel hyfforddwr.

Mae sawl athletwr rhyngwladol presennol a blaenorol o Gymru eisoes yn cymryd rhan yn y fenter Athletwr i Hyfforddwr. Maent yn cynnwys y rhedwr marathon ym Mhencampwriaethau Athletau'r Byd a Gemau'r Gymanwlad **Josh Griffiths** a'r taflwr morthwyl yng Ngemau'r Gymanwlad **Carys Parry**, sydd eisoes wedi cael llwyddiant yn hyfforddi deiliad record morthwyl Cymru, **Osian Jones**.

## GYMNASTEG GYDA MEDDYLFRYD TWF

Yn ddiweddar, rydym wedi gweithio gyda Gymnasteg Cymru ar ôl iddynt ddatgan eu bod eisiau i'w hathletwyr hŷn feddu ar lefelau uchel o 'benderfyniad' fel sgil pwysig i'w cefnogi mewn chwaraeon ac mewn bywyd yn ehangach. Nodwyd hefyd eu bod eisiau sicrhau bod gymnastwyr yn aros yn y system am gyn hired â phosibl, er mwyn iddynt gael cyfleoedd i ddatblygu. Er mwyn helpu i gynyddu lefelau dyfalbarhad gymnastwyr, rheoli methiant ar hyd y siwrnai ddatblygu, a'u helpu i ddysgu'n barhaus, cydnabuwyd pwysigrwydd cael meddylfryd twf.

Sefydlodd Gymnasteg Cymru bod angen cysylltu hyn â'r hyfforddiant a sefydlwyd, a bod hyfforddwyr yn chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad meddylfryd athletwr. Roedd rhaglen datblygu hyfforddwyr yn cael ei rhedeg ar y pryd i gefnogi hyfforddwyr a oedd wedi'u nodi fel unigolion yr oedd Gymnasteg Cymru eisiau buddsoddi ynddynt.

### YR EFFAITH

Adroddodd yr hyfforddwyr ar y canlynol:

1. Mwy o gyfathrebu gyda'u gymnastwyr, gan eu cynnwys yn fwy yn y broses o wneud penderfyniadau a darparu adborth mwy rheolaidd.
2. Buddsoddi mwy o amser i ddeall anghenion yr unigolyn.
3. Ystyried yr anghenion **tymor hir** a mabwysiadu ffocws **tymor hir** ar ddatblygiad athletwyr.
4. Mwy o adlewyrchu personol, hyder, a hunanymwybyddiaeth fel hyfforddwr.
5. Gweld camgymeriadau fel rhan allweddol o ddysgu.
6. Parhau i weithio ar eu meddylfryd eu hunain fel hyfforddwr, meddylfryd eu gymnastwyr, a'r meddylfryd a ddatblygir ar draws eu clwb/clybiau eraill, y tu hwnt i'r prosiect hwn.
7. Sefydlwyd cysylltiadau ymhellach rhwng hyfforddwyr a chlybiau a datblygwyd rhwydweithiau cymheiriaid.

## SYLW I LWYDDIANT, ARWEINYDDIAETH A DYSGU ATHLETWYR

Roedd uchafbwyntiau, isafbwyntiau, arwyr newydd, a hen ffyddloniaid i chwaraeon yng Nghymru yn 2021 – ond goroesi oedd y stori fawr. Roedd goroesi fel rhywun brwd dros chwaraeon eleni yn **ymwneud** â'r gallu i addasu a **gwydnwch**. Os oeddech chi'n athletwr o Gymru yn ennill aur yn y Gemau Olympaidd fel y focswraig Lauren Price, neu'n rhywun eisiau mynd i nofio neu fynd am gêm o fowls yn eich canolfan chwaraeon leol, penderfyniad a dyfalbarhad oedd yn allweddol.

# GEMAU OLYMPAIDD 2021...

Treuliodd **Matt Richards** fisoedd cyn y Gemau Olympaidd mewn pwll padlo anferth a adeiladwyd gartref, yn nofio am oriau bob dydd. Roedd yn golygu y gallai ddal ati i nofio pan oedd yr holl byllau ar gau yn ystod y cyfnod clo. Gwobr seren 19 oed Nofio Cymru oedd medal aur i Brydain Fawr yn y ras gyfnewid dull rhydd 4 x 200m.

Roedd buddugoliaethau eraill i Gymru yn Tokyo, a rhywfaint o siomedigaethau hefyd. Dyna natur chwaraeon.

Hwyliodd **Hannah Mills** ei ffordd at aur yn nosbarth 470 y merched. Dyma ail aur Olympaidd yn olynol i Hannah ac adlewyrchwyd ei statws yn y gamp yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn pan gafodd ei dewis yn Forwr y Flwyddyn y Byd. Ymhlith yr enillwyr medalau eraill o Gymru yn Tokyo roedd y feicwraig **Elinor Barker**, a gipiodd arian fel rhan o weithgaredd tîm y merched.

Cafodd **Tom Barras**, a ddaeth i Gymru i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, arian hefyd wrth rwyfo yn y sgwlio i bedwarawdau, a chipiodd ei gyd-rwyfwyr o Gymru, **Oliver Wynne-Griffith** a **Josh Bugajski**, efydd yng nghriw wyth y dynion. Cafodd **Leah Wilkinson** a **Sarah Jones** – sydd wedi treulio blynyddoedd yn cynrychioli hoci Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad – wobr o'r diwedd ar lefel Olympaidd, wrth iddynt ennill efydd gyda charfan merched Prydain Fawr.








Ac, i Gymru, mae'r Gemau Paralympaidd fel rheol yn golygu **Aled Sion Davies**, ac mae hyn fel rheol yn golygu aur. Ni chawsom ein siomi gan y seren taflu maen o Ben-y-bont ar Ogwr – a gipiodd ei drydydd teitl Paralympaidd yn olynol. Ond efallai bod Aled wych yn y cysgod fymryn eleni, oherwydd **Jim Roberts**. Y ffenomen rygbi cadair olwyn o'r Trallwng oedd arwr sgorio ceisiau ei dîm wrth i Brydain Fawr ennill aur am y tro cyntaf. Cyhoeddodd Jim ei ymddeoliad ar ddiwedd 2021 – sôn am orffen ar y brig!

Roedd aur, hefyd, i **Laura Sugar**, wrth iddi ennill ei rownd derfynol KL3 yn y sbrint - dyma athletwraig amldalentog oedd yn chwarae hoci i Gymru, daeth yn bara-athletwraig trac a maes, ac wedyn trodd at bara-canŵio.

Enillwyd medalau Paralympaidd hefyd gan y chwaraewyr tennis bwrdd **Paul Karabardak** (arian ac efydd) a **Tom Matthews** (efydd), yn ogystal ag efydd i **Holly Arnold** (gwaywffon), **Olivia Breen** (naid hir), **Harri Jenkins** (100m) a **Georgia Wilson** (marchogaeth), a enillodd ddwy fedal efydd.

Roedd **Jasmine Joyce** yn Tokyo hefyd gyda Thîm Prydain Fawr. Fe wnaeth ei champau yn sgorio ceisiau yn 2021 hi y chwaraewraig rygbi fwyaf cyffrous yng Nghymru o bosibl. Mewn gwirionedd - bydd Gemau Olympaidd Tokyo yn cael eu cofio fel y Gemau lle bu merched Cymru yn ailysgrifennu hanes eu gwlad.

# ARWEINYDDIAETH A GWAITH TÎM...

Nid oedd arweinwyr trawiadol yn brin yng Nghymru yn 2021. O dan gapteiniaeth **Sophie Ingle** – chwaraeodd tîm pêl droed merched Cymru yn rhagorol ac maent mewn sefyllfa realistig i gymhwyso am y tro cyntaf ar gyfer Cwpan y Byd. Mae tîm pêl droed y dynion – o dan hyfforddiant Robert Page a chapteiniaeth **Gareth Bale** - mewn sefyllfa debyg hefyd gyda gêm ail gyfle i ddod ym mis Ebrill.

Dechreuodd 2022 gyda phencampwr byd newydd o Gymru wrth i **Gerwyn Price** gyrraedd y brig uchaf un mewn dartiau proffesiynol. Roedd llawenydd ganol yr haf i gefnogwyr criced Cymru pan enillodd **Morgannwg** Gwpan Undydd Brenhinol Llundain – tlws cyntaf y sir ers 17 mlynedd.

Llwyddodd y chwaraewr sboncen **Joel Makin** i gyrraedd 10 uchaf y byd, gan ymuno â Tesni Evans yng ngêm y merched, cyrhaeddodd yr athletwr **Jake Heyward** rownd derfynol y 1500m Olympaidd, daeth y feicwraig **Zoe Backstedt** yn bencampwraig iau y byd, a daeth **Laura Daniels** yn bencampwraig bowls dan do y byd am yr eildro.

Cymhwysodd **Dynion Hoci Cymru** ar gyfer Cwpan y Byd am y tro cyntaf yn eu hanes - gan hawlio eu seddi ar yr awyren i India ar gyfer Cwpan y Byd 2023 gyda buddugoliaeth mewn ergydion o'r smotyn yn y rownd gynderfynol yn erbyn Iwerddon ym mis Hydref 2021.




Always
BELIEVE
that
something

# BUDDSODDI MEWN CHWARAEON CYMUNEDOL

## CRONFA CYMRU ACTIF [BAWF]

Mae BAWF yn cynnig grantiau rhwng £300 a £50,000 ar gyfer prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau cymunedol neu glybiau nid-er-elw yng Nghymru sy'n bwriadu gwneud o leiaf un o'r canlynol

- LLEIHAU ANGHYDRADDOLDEB
- CREU CYNALIADWYEDD TYMOR HIR
- CYFLWYNO FFYRDD NEWYDD NEU WAHANOL O WEITHREDU

Mae cyllid ar gael i glybiau nid-er-elw neu sefydliadau cymunedol yng Nghymru sydd â phrosiect neu weithgaredd nad yw wedi dechrau eto, a fydd yn cael ei gynnal yng Nghymru, ac a fydd o fudd i fwy na dim ond disgyblion ysgol lle mae'r prosiect yn cael ei gynnal. Gellir defnyddio'r cyllid i uwchsgilio gwirfoddolwyr, prynu offer sy'n galluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, datblygu ffyrdd newydd neu wahanol o gyflwyno gweithgarwch corfforol, neu gyrraedd pobl sy'n cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**Eleni, mae BAWF wedi parhau i weithredu drwy ddwy ffrwd:**

**'CYNNYDD'** **60** o geisiadau llwyddiannus gwerth cyfanswm o **£636, 494** mewn cyfalaf, a **407** o geisiadau gwerth cyfanswm o **£1,958,231** ar gyfer refeniw.

**'DIOGELU'** Derbyn **222** o geisiadau ar gyfer swm o **£562,513**

**Yr Awdurdodau Lleol gyda'r lefel uchaf o gyllid drwy geisiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon oedd:**

- Sir Benfro - **£323,633.00**
- RhCT - **£175,832.00**
- Caerffili - **£173,456.00**
- Abertawe - **£149,533.00**
- Torfaen - **£142,455.00**

**Y chwaraeon gyda'r lefel uchaf o gyllid cymunedol drwy geisiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon oedd:**

- Pêl Droed - **£458,730.00**
- Criced - **£389,073.00**
- Rygbi'r Undeb - **£337,511.00**
- Golff - **£138,465.00**
- Gymnasteg - **£111,892.00**

## LLE I CHWARAEON – CROWDFUNDER

Mae cyllido torfol yn ffordd o godi arian ar gyfer achosion da a syniadau, gan helpu sefydliadau a neu brosiectau i gysylltu â chymunedau lleol. Ym mis Medi 2021, ffurfiodd Chwaraeon Cymru bartneriaeth gyda Crowdfunder UK i lansio 'Lle i Chwaraeon: Crowdfunder', gyda'r nod o gefnogi clybiau, sefydliadau a gweithgareddau cymunedol nid-er-elw i godi arian ar gyfer gwelliannau i gyfleusterau oddi ar y cae.

Gyda chefnogaeth Crowdfunder UK, mae sefydliadau cymwys yn sefydlu eu tudalen prosiect eu hunain, gyda'r nod o annog aelodau'r gymuned i addo arian tuag at eu hachos. Mae Chwaraeon Cymru yn asesu pob cais Crowdfunder ac yn penderfynu a ddylid cefnogi prosiect yn seiliedig ar feini prawf penodol. Os bydd prosiect yn llwyddiannus, bydd Chwaraeon Cymru yn addo rhwng 30% - 50% o gyfanswm targed y prosiect. Pennir y canrannau cyllid cyfatebol ar sail data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a gallu prosiect i gefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn chwaraeon.

**AR 31AIN MAWRTH 2022, MAE CHWARAEON CYMRU WEDI ADDO ARIAN AR GYFER 15 O BROSIECTAU 'LLE I CHWARAEON: CROWDFUNDER' AR GYFER GWELLIANNAU CYFALAF/CYFLEUSTERAU ODDI AR Y CAE. O'R PROSIECTAU HYN, MAE CYFANSWM O**

# £195,765

**WEDI'I GODI - £127,765 O RODDION CYMUNEDOL A £68,000 O FUDDSODDIAD GAN CHWARAEON CYMRU, GAN GREU YCHWANEGIAD O BRON I 2:1 O ARIAN CYHOEDDUS**

| £127,765 O'R GYMUNED | £68,000 O CHWARAEON CYMRU |
|---|---|

# ASTUDIAETH ACHOS LLE I CHWARAEON 1

## CLWB PÊL DROED ALBIONS YNYSHIR

**Prosiect:** Dyhead Clwb Pêl Droed Albions Ynyshir oedd codi arian i weithredu cyfleusterau hylendid sylfaenol ar gyfer eu cae pêl droed, i wella profiad y gwylwyr.

**CYFANSWM TARGED CYFFREDINOL Y PROSIECT: £18,000**

**CYFRANIAD ARIAN CYFATEBOL CHWARAEON CYMRU: 50% (£9,000)**

**CYFANSWM YR ARIAN A GODWYD: £18,031**

**CEFNOGWYR: 114 O GEFNOGWYR YN Y GYMUNED**

Dolen i dudalen y prosiect:
https://www.crowdfunder.co.uk/p/ladies-and-disabled-sanitary-facilities

# ASTUDIAETH ACHOS LLE I CHWARAEON 2

## GYMNASTEG GWY A CHODI HWYL GALAXY

**Prosiect:** Roedd Gymnasteg Gwy a Chodi Hwyl Galaxy eisiau trawsnewid caban symudol newydd yn gaffi cymunedol glân, ffres a chroesawgar i aelodau'r clwb, gwylwyr ac aelodau'r gymuned leol ei ddefnyddio a'i fwynhau.

**CYFANSWM TARGED CYFFREDINOL Y PROSIECT: £10,000**

**CYFRANIAD ARIAN CYFATEBOL CHWARAEON CYMRU: 40% (£4,000)**

**CYFANSWM YR ARIAN A GODWYD: £10,577**

**CEFNOGWYR: 179 O GEFNOGWYR YN Y GYMUNED**

Dolen i dudalen y prosiect: https://www.crowdfunder.co.uk/p/the-coffee-beam

# EIN GWYBODAETH

## AROLWG CENEDLAETHOL CYMRU (ACC)

Rydym yn parhau i ddarparu ystadegau swyddogol ar Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol i Lywodraeth Cymru. Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw drwy gyfrannu at Arolwg Cenedlaethol Cymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ffigurau chwarterol wedi'u rhyddhau, ac ym mis Gorffennaf 2022 bydd y rownd nesaf o ddata blynyddol yn cael ei chyhoeddi.

## COMRES

Mae ein harolygon ComRes yn dangos ein bod wedi gweld pwysigrwydd mewn deall anghenion pobl Cymru fel maent yn newid o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r cyfle iddynt gymryd rhan yn ystod covid. Cafodd yr arolygon eu comisiynu'n gyflym a'u cyfathrebu i'r sector chwaraeon a thu hwnt, a chawsant eu hailadrodd a'u gwella wrth i'r pandemig symud drwy wahanol gamau, i ddeall effeithiau pellach fel safbwyntiau am wirfoddoli, cymhelliant a chyfranogiad.

Yn 2021-22, fe wnaethom gwblhau'r arolwg hwn dair gwaith. Tynnodd yr wybodaeth o'r gwaith hwn sylw at yr effaith a gafodd covid ar gyfranogiad, ymgysylltu, cymhelliant a hyder mewn perthynas â chwaraeon. Mae hefyd wedi rhoi cipolwg ar ystyriaethau ehangach fel effaith y tywydd, a'r dyhead i wirfoddoli. Mae'r data hyn yn ychwanegu at y ffordd rydym yn mabwysiadu dull a arweinir gan wybodaeth i deilwra'r hyn rydym yn ei wneud. Un enghraifft o hyn yw ehangu ein grantiau buddsoddi cymunedol i gyllido addysg hyfforddwyr, yn ogystal â darparu offer PPE i roi hyder o amgylch yr amgylchedd i ddychwelyd at weithgarwch. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i gefnogi'r gweithlu drwy ein tîm datblygu pobl i adlewyrchu'r dystiolaeth hon sy'n dod i'r amlwg.

## SEFYDLIAD GWEITHGARWCH CORFFOROL, IECHYD A CHWARAEON CYMRU (WIPAHS)

**Yn ystod y 12 mis diwethaf mae ein partneriaeth gydag Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS) wedi parhau i dyfu, gan ddarparu ymchwil amserol ac effeithiol fel sail i ddatblygu ein polisïau.**

Cynhaliodd y Sefydliad, gyda chefnogaeth pob un o'r 8 prifysgol yng Nghymru, ymchwil i werthuso'r ddealltwriaeth o effaith pandemig Covid-19 ar amser eisteddog a chanlyniadau iechyd mewn plant ac oedolion; cyflwynodd brosiect yn edrych ar brofiadau pobl o wella ar ôl Covid-19, adolygodd effaith y cyfnodau clo ar lefelau gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc, eu hiechyd meddwl a'u llesiant a datblygodd fframwaith i nodi cynulleidfaoedd targed ac ymddygiadau i ddylanwadu arnynt fel blaenoriaeth wrth ddod allan o'r pandemig.

Yn ogystal, mae WIPAHS wedi dechrau gweithio gyda sefydliadau newydd fel rhan o'i ddull mynegi diddordeb. Mae hyn wedi ehangu cyrhaeddiad y modd y mae'r Sefydliad, a thrwy gysylltiad, Chwaraeon Cymru, yn cefnogi datblygiad ymchwil a dylanwad ar draws y sector chwaraeon a thu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys partneriaeth newydd gyda Bwrdd Chwaraeon Plismona yng Nghymru a phrosiect ymchwil gyda Thriathlon Cymru yn astudio effaith platfformau hyfforddi ar-lein a'u dylanwad wrth hyrwyddo gorhyfforddi yn ystod pandemig Covid-19.

Hefyd, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth sy'n deillio o Gymru yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol a'i bod yn dylanwadu ar bolisi ac arfer rhyngwladol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae WIPAHS wedi dod yn aelod o Health Enhancing Physical Activity (HEPA) Ewrop, sef rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer hybu gweithgarwch corfforol sy'n gwella iechyd.

# ADLEWYRCHU AR Y FLWYDDYN

## RYDYM WEDI ADLEWYRCHU AR Y FLWYDDYN DDIWETHAF A DYSGU:

### Mae arnom ni angen dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o weithredu gyda llesiant staff

Mae deall anghenion llesiant a'r gofynion o ran cyfyngiadau covid ar staff, staff â phlant, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu eraill, yn sylfaenol bwysig i ni. Ymdriniwyd â dychwelyd i leoliadau gwaith yn y swyddfa yn sensitif, gyda staff yn cymryd rhan mewn rhoi eu barn mewn trafodaeth a thrwy arolygon i ddeall beth oedd y teimladau am leoliadau gwaith. Yn amodol ar anghenion y busnes, mae'r staff wedi gallu penderfynu ar y lleoliadau gwaith sy'n addas ar gyfer eu llesiant ac iddynt **ffynnu**, ac mae dull gweithio Hybrid newydd yn cael ei ddatblygu gyda mewnbwn staff - mae ein grŵp ymgysylltu â staff wedi bod yn hollbwysig yn hyn.

### Mae angen i ni barhau i gydnabod anghenion croestoriadol cymunedau

Rydym wedi bod yn agored am rai o'n cyfyngiadau blaenorol yn y maes hwn ac wedi cydnabod yr angen am ddatblygu rhwydweithiau cadarnach gyda chymunedau ethnig amrywiol. Rydym wedi cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn. Mae agweddau hanesyddol ar ein dulliau **cydweithredu** wedi'u hadolygu ac felly, mae gwahanol ddulliau'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd sy'n cynnwys cefnogaeth sefydliadau ymgynghori ac amrywiaeth o bartneriaid sydd â pherthnasoedd dibynadwy o fewn cymunedau penodol. Rydym hefyd yn adolygu ein systemau a'n prosesau mewnol ein hunain, gan edrych yn weithredol ar ffyrdd y gallwn weithio mewn ffordd fwy croestoriadol.

# EIN GWAITH FEL CORFF CYHOEDDUS

### EIN GWAITH I YMGORFFORI CYNLLUNIAU GWEITHREDU CYDRADDOLDEB LLYWODRAETH CYMRU

Fel rhan o'n rôl fel corff a noddir gan y llywodraeth, rydym yn gweithio i gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar y cyd o fewn ein llythyr cylch gwaith. Rydym yn cydnabod bod gennym rôl i'w chwarae wrth ymgorffori'r drafft diweddar o gynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb craidd Llywodraeth Cymru (sef – y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+) sydd i'w cyhoeddi'n derfynol yn 2022.

## EIN HAMCANION LLESIANT

**Yn dilyn yr adolygiad o gynnydd tuag at ein hamcanion llesiant a nodir isod, rydym wedi penderfynu bod yr amcanion presennol yn parhau i fod yn briodol.**

### #1 BOD YN BERSON GANOLOG - ANGHENION A CHYMHELLIANT YR UNIGOLYN SY'N ARWAIN Y CYFLWYNO, BOED HYNNY WRTH DDECHRAU ARNI, ANELU AT WNEUD CYNNYDD, NEU'N ANELU AM RAGORIAETH AR LWYFAN Y BYD.

Rydym wedi gwneud **cynnydd** yn erbyn yr amcan hwn, a'r dystiolaeth yw ein gwaith gydag athletwyr elitaidd (tudalen 40) a'n dull buddsoddi newydd, sy'n defnyddio data cyfranogiad a data galw cudd o arolygon cenedlaethol fel sail ar gyfer cyllido ein partneriaid.

Mae angen defnyddwyr yn dod yn egwyddor gadarnach yn ein gwaith ac roedd y dull hwn o weithredu yn amlwg yn yr Adolygiad o Fuddsoddiad Cymunedol (tudalen 30). Rydym hefyd wedi dangos dull person-ganolog o weithredu drwy weithio mewn partneriaeth yn benodol gan ofyn, gwrando a deall yr hyn sy'n bwysig i'n partneriaid. Rydym yn ymdrechu i ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhwydwaith ehangach o bartneriaid i sicrhau ein bod yn deall anghenion poblogaeth Cymru yn well. Mae rhan o'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ffurfio perthnasoedd newydd a chadarnach gyda chymunedau ethnig amrywiol (tudalen 32). Mae gan arallgyfeirio rhwydweithiau partner ddimensiwn rhanbarthol a lleol hefyd gan y bydd menter y Bartneriaeth Chwaraeon yn ceisio gweithio gyda'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i fod yn berson-ganolog o ran y cymunedau a'r unigolion hynny nad ydynt yn **ymwneud** â chwaraeon neu hamdden gorfforol ar hyn o bryd.

### #2 RHOI'R DECHRAU GORAU I BOB PERSON IFANC - MAE GAN BOB PERSON IFANC Y SGILIAU, YR HYDER A'R CYMHELLIANT I'W GALLUOGI I FWYNHAU A SYMUD YMLAEN DRWY CHWARAEON; GAN ROI SEILIAU IDDYNT FYW BYWYD ACTIF, IACH A CHYFOETHOG.

Mae'r ystod eang o ffrydiau gwaith yn y gofod addysg, (tudalen 23), yn dangos bod **cynnydd** yn cael ei wneud i gyflawni'r amcan hwn, drwy ein **hymwneud** uniongyrchol ac eiriolaeth, a hefyd ein gwaith mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sector addysg. Mae hyn er gwaethaf heriau'r pandemig i chwaraeon ysgol a chwaraeon iau.

Bydd y ffrwd waith newydd - ISS, (tudalen 40), yn cyfrannu at y maes gwaith hwn wrth iddo ddatblygu. Bydd hefyd yn cynnwys datblygu negeseuon, adnoddau ac ymyriadau sy'n cefnogi'r amgylchedd chwaraeon o fewn lleoliad sylfaen, gan gydnabod y rôl allweddol y mae ysgolion a'r cwricwlwm yn ei chwarae yn y gwaith hwn.

Mae'n gadarnhaol iawn bod y dull Buddsoddi newydd yn gwrando ar leisiau cyfunol plant o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth honno fel sail ar gyfer dyrannu cyllid. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd yr egwyddor **ymwneud** yn ein gwaith. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull Cenedlaethau'r Dyfodol o weithredu gyda'n buddsoddiadau, gan gyfeirio ein cyllid tuag at yr hyn y mae pobl ifanc yn ei nodi yw'r gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt, neu yr hoffent eu chwarae, i ddylanwadu ar y darpariaethau sydd arnynt eu hangen i greu perthnasoedd cyson â gweithgarwch corfforol.

## #3 SICRHAU BOD PAWB YN CAEL Y CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON - MAE CHWARAEON YN GYNHWYSOL AC YN DARPARU PROFIAD GWYCH I BAWB.

Mae'r amcan hwn wedi parhau i fod yn flaenoriaeth uchaf i'r sefydliad yn ystod 2021-22. Mae gan aelodau'r Bwrdd a'r staff ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae hwn yn faes yr ydym yn cyfaddef nad yw wedi cael yr effaith angenrheidiol o'r blaen, ac felly rydym wedi cynyddu ei bwysigrwydd strategol. Ar ôl cydnabod hyn yn 2020 a sefydlu'r fenter Mynd i'r Afael â Hiliaeth ac Anghydraddoldeb Hiliol mewn Chwaraeon yn 2021, un rhan allweddol o'i weithredu yw darn helaeth o waith ar fuddsoddiad cymunedol gyda chefnogaeth y Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS)(tudalen 30).

Un arwydd o'n hymrwymiad cadarn i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yw'r sail ar gyfer blaenoriaethu cyllid yn ein Dull Buddsoddi. Gan ddefnyddio data arolwg am gyfranogiad o arolygon cenedlaethol, mae dyfarniadau cyllid i CRhC wedi'u pwysoli o blaid chwaraeon sy'n fwy poblogaidd ar gyfer grwpiau dan anfantais (merched; amddifadedd economaidd-gymdeithasol; cymunedau ethnig amrywiol a phobl ag anableddau). Mae'r dull hwn o weithredu yn cyd-fynd â'r 7 Maes Newid a nodwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gan ei fod yn dangos sut mae'r ffyrdd o weithio a'r amcanion llesiant yn cael eu cynnwys mewn cynllunio ariannol ar gyfer y **tymor hir**.

Mae menter y Partneriaethau Chwaraeon yn ffrwd waith sylfaenol arall sy'n cael ei hysgogi gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a **chynnydd** tuag at yr amcan hwn a bydd cysylltiad agos rhwng llwyddiant y Partneriaethau Chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru wedi ceisio ymgorffori egwyddorion fel **tymor hir** ac **atal** drwy geisio gwneud ymrwymiadau cyllido 5 mlynedd i Bartneriaethau Chwaraeon.

Roedd **Cydraddoldeb**, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan greiddiol o'n Cynllun Busnes yn 2021/22 ac mae wedi ysgogi cynnydd cyson yn ffocws y rhaglen waith drwy gydol y flwyddyn. Mae rhai o'r prosiectau hyn yn dechrau gweithredu tra bo eraill yn y cyfnod paratoi. Mae ffocws y cynllun busnes ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei gadw ar gyfer 2022-23 a dylai weld llawer o'r prosiectau presennol yn gwneud gwahaniaeth a mentrau newydd yn cael eu sefydlu.

## #4 DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR - CEIR SECTOR CHWARAEON CYDWEITHREDOL, CYNALIADWY A LLWYDDIANNUS, A ARWEINIR GAN WYBODAETH A DYSGU AR Y CYD.

Mae'r enghreifftiau Grŵp Chwaraeon Cenedlaethol, (tudalen 13); ymgyrch partneriaeth gyda Mind Cymru, (tudalen XX); a dull Partneriaethau Chwaraeon o weithredu (tudalen 23) yn dystiolaeth bod yr amcan hwn yn dod yn rhan annatod o'n ffordd o weithio. Mae'n bwysig i ni adeiladu ar y meysydd **cydweithredu** llwyddiannus presennol, a sicrhau ein bod yn ystyried ac yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau mewn meysydd eraill a allai elwa hefyd. Mae **cydweithredu** â phartneriaid, a rhyng-gysylltedd ffrydiau gwaith yn helpu i gryfhau'r egwyddor o **integreiddio** yn ein gwaith. Rydym yn gweithio ar ymgorffori hyn, gan fod gennym **gydweithrediad**.

Mae **integreiddio** yn adeiladu ar gyfradd arafach o gymharu â **chydweithredu**, fodd bynnag mae arwyddion cadarnhaol o fewn datblygiad y perthnasoedd presennol a newydd - sy'n dynodi **integreiddio** cynnar, fel y posibilrwydd o rannu adnoddau neu gyfuno cyllidebau.

Mae staff yn adrodd bod nifer o fforymau **cydweithredol** gyda sefydliadau partner Chwaraeon Cymru ar fin gwneud ymrwymiadau sylweddol i'w gilydd, fel rhannu adnoddau. Un enghraifft lle mae hyn wedi digwydd oedd ein partneriaeth ddiweddar gyda Mind Cymru, gan ddangos sut gall gweithgarwch corfforol helpu i gefnogi pobl gydag iechyd a lles y meddwl (tudalen 20). Fe wnaethom gomisiynu cynhyrchu ffilm fideo i hyrwyddo'r ymgyrch, a ddefnyddiwyd gan Mind Cymru ar ei blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Aethom ati i roi'r rôl gymeradwyo derfynol i Mind Cymru ar y ffilm fideo gan ddangos yr ymddiriedaeth a ddatblygwyd rhwng y ddau sefydliad a'r newid o **gydweithredu** i **integreiddio** wrth iddynt ddefnyddio eu hadnoddau i wneud yr ymgyrch mor llwyddiannus â phosibl.

## #5 ARDDANGOS MANTEISION CHWARAEON - MAE TYSTIOLAETH O EFFAITH CHWARAEON, A CHAIFF CYRHAEDDIAD CHWARAEON EI DDEALL YN LLAWN, EI ARDDANGOS A'I DDATHLU LEDLED CYMRU.

Mae potensial enfawr mewn perthynas â'r amcan hwn ar gyfer effaith chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar nodau llesiant Cymru (yn benodol, Cymru **Iachach**; Cymru Lewyrchus; Cymru Sy'n Fwy **Cyfartal**) drwy egwyddorion **atal** a thymor hir. Bydd ein gwaith ar Bartneriaethau Chwaraeon, iechyd ac addysg yn hanfodol i gyflawni'r amcan hwn.

Rydym wedi cynyddu cwmpas ein data o arolygon ar chwaraeon yn ystod y pandemig drwy gomisiynu adroddiadau ymateb cyflym i ddeall ac i gyfathrebu effaith cyfyngiadau Covid-19 ar gyfranogiad mewn chwaraeon ac agweddau eraill fel gwirfoddoli (tudalen 13) . Mae ymgyrchu wedi'i gynyddu hefyd i eirioli negeseuon diwygiedig am gyfranogiad diogel (#NôlYnYGêm), (tudalen 13) sydd wedi gorfod newid yn gyflym i hysbysu a chymell yn briodol wrth i gyfyngiadau gael eu newid, eu llacio neu eu hailorfodi.

Rydym yn cael ein hystyried yn gydweithredwr allweddol, ac yn arweinydd gyda Llywodraeth Cymru ac ystod o Gyrff Cyhoeddus i gyd-greu cynlluniau a dulliau gweithredu. Er enghraifft, chwarae rhan arweiniol yn Pwysau Iach Cymru Iach, y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer y Cynnig Actif Dyddiol ac ymgysylltu â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyfer trafodaethau cynnar ar gynlluniau newydd ar gyfer Chwaraeon ac **Atal** Troseddau Ieuenctid. Er bod y cydweithio hwn ar lefel genedlaethol yn parhau i fod yn hanfodol, efallai mai'r her fwyaf yn awr yw rhoi'r dulliau sy'n cael eu datblygu ar y cyd ar lefel genedlaethol ar waith yn ymarferol gyda'r gefnogaeth angenrheidiol ar lefel ranbarthol a lleol gan y sectorau iechyd, addysg a chwaraeon ehangach. Dylai gweithredu Partneriaethau Chwaraeon helpu i ddarparu'r fforymau a'r adnoddau strategol i ddatblygu'n llawn y dulliau, y prosiectau a'r rhaglenni sydd eu hangen.

## #6 BOD YN SEFYDLIAD O WERTH MAWR - MAE CHWARAEON CYMRU YN SEFYDLIAD UCHEL EI BARCH, SY'N YMDRECHU I ORGYFLAWNI DRWY DDARPARU GWASANAETH RHAGOROL DRWY STAFF GWERTHFAWR.

Gallai asesu gwerth ymddangosiadol ein gwasanaethau fod yn deilwng o waith arolygu pellach ar sail annibynnol. Dylid nodi bod ein dau gyfleuster chwaraeon wedi gofyn am asesu a meincnodi annibynnol dros nifer o flynyddoedd. Mae'r ddau gyfleuster wedi ennill gradd Ragorol Quest am y cynllun ansawdd gwasanaeth hwn a ddefnyddir yn eang yn y sector chwaraeon.

Mae gwrando ar adborth gan bartneriaid wedi parhau fel rhan bwysig o'r ffordd rydym wedi diogelu'r sector rhag rhai o effeithiau ariannol covid. Er enghraifft, drwy lwyfannu gweithredu ein dull buddsoddi am 12 mis.

Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rhan o Raglen Lywodraethu 2021-2026 gan arwain at fuddsoddiad ychwanegol o £11.5m ar gyfer darpariaeth gyfalaf yn 2021-22 ac ymrwymiad cyllido yn y dyfodol. Mae Chwaraeon a Hamdden Gorfforol hefyd yn rhan o raglenni ychwanegol Llywodraeth Cymru - 'Haf o Hwyl' (2021 a 2022) a 'Gaeaf Llawn Lles' (2021), rhaglenni o weithgareddau diwylliannol am ddim i gefnogi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol plant a phobl ifanc ar ôl cyfyngiadau'r pandemig. Mae'r mentrau hyn yn dangos bod chwaraeon yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi o fewn y llywodraeth am eu rôl bwysig ym mywyd o ddydd i ddydd Cymru ac wrth gyflawni 7 nod llesiant Cymru.


Reebok

# EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB

## 1. CYNYDDU AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT Y GWEITHLU

Mae cynyddu amrywiaeth y staff wedi bod yn flaenoriaeth uchel i ni, yn enwedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae **cynnydd** wedi'i wneud. Mae staff sy'n datgan eu bod o gymunedau ethnig amrywiol yn 6% o'r gweithlu (2% yn 2020-21). Mae'r unigolion sy'n nodi eu bod yn hoyw/lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn Chwaraeon Cymru yn 4% (1% yn 2020-21). Mae staff sy'n datgan bod ganddynt Anabledd yn 4% o'r gweithlu (3% yn 2020-21). Mae'r amrywiaeth rhywedd ymhlith staff Chwaraeon Cymru ac aelodau'r Bwrdd yn parhau i fod yn gytbwys yn gyffredinol gyda gostyngiad bach o un pwynt canran i'r ffigurau presennol ar gyfer y gweithlu staff cyfan, sef 53% yn fenywod a 47% yn wrywod.

Er bod y ddemograffeg staff bresennol yn adlewyrchu poblogaeth ehangach Cymru o ran ethnigrwydd a rhywioldeb, mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ei weithlu ymhellach a chreu diwylliant mwy cynhwysol. Bydd 2022/2023 yn canolbwyntio ar ddull newydd o weithredu gydag interniaethau, prentisiaethau, a chyfleoedd profiad gwaith gyda ffocws penodol ar amrywiaeth, ochr yn ochr â phresenoldeb cynyddol mewn ffeiriau swyddi a digwyddiadau cymunedol.

## 2. DILEU BYLCHAU CYFLOG

Bu newid cadarnhaol sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chefnogaeth drwy weithredu'r prosiect ailgynllunio staff, gyda chyfran uchel o ferched yn symud i swyddi arwain neu reoli. Mae hyn wedi cyfrannu at ddileu'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn ystod y 12 mis diwethaf, (2020/21 0.8%), a bu cynnydd bach i 6.1% (2020/21 3.8%) yn y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata am fylchau cyflog eraill (ee ethnigrwydd; anabledd) oherwydd mai cyfran gyfyngedig o staff sydd â'r nodweddion hynny.

## 3. YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Rydym wedi cynnal blaenoriaeth uchel iawn ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac wedi gweld ymgysylltu fel agwedd allweddol ar hyn - drwy ein gwaith Buddsoddi Cymunedol, ac mewn trafodaethau gyda phartneriaid allweddol. Ceir arwyddion addawol o ymgysylltu sy'n parhau i fod yn eu cyfnod cynnar, gyda chydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth wrth galon llawer o'r gwaith hwn.

## 4. SICRHAU BOD CYDRADDOLDEB WEDI'I YMGORFFORI YN Y BROSES GAFFAEL / COMISIYNU AC YN CAEL EI REOLI YM MHOB RHAN O'R DDARPARIAETH

Mae camau gweithredu clir wedi'u nodi yn y Cynllun **Cydraddoldeb** Strategol 2020-24 i fynd i'r afael â hyn. Mae'r gwaith wedi'i amserlennu ar gyfer 2022 gan fod y gweithgor perthnasol ym Mhartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru yn cael ei sefydlu. O ystyried y gwariant cymharol gyfyngedig ar gaffael, nid yw hyn yn cael ei weld fel amcan a fydd yn gofyn am lefelau uchel o adnoddau i symud ymlaen.

## 5. SICRHAU BOD Y DDARPARIAETH O WASANAETHAU YN ADLEWYRCHU ANGHENION UNIGOL

Yn yr un modd ag amcan 3 (Ymgysylltu â'r Gymuned), mae bwriad cadarn i newid er mwyn sefydlu dulliau ar gyfer cydgynhyrchu a rhannu dysgu. Sefydlwyd dulliau mewnol fel Labordai Dysgu yn 2020-21 i ystyried dysgu gan staff a chan ein sefydliadau partner. Mae elfen 'Atebolrwydd' y model buddsoddi newydd i drafod ac olrhain **cynnydd** amcanion yn enghraifft arall o ddull gwahanol iawn o weithredu strategaeth. Bydd y 12 mis nesaf yn amser allweddol i'r dulliau newydd hyn sefydlu'n llawn, ac i ddysgu fod â'r potensial i elwa'n ehangach.






# ADRODD AR SAFONAU'R GYMRAEG

## CYFLWYNIAD

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar bersonau i gydymffurfio â safonau statudol ynghylch y Gymraeg. Disodlodd y Safonau Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Ar ôl cyfnod o ymgynghori rhwng Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, daeth Safonau Cymraeg newydd i rym i Chwaraeon Cymru ar 25ain Ionawr 2017.

Mae'r adran hon yn asesu ein perfformiad yn erbyn ein Safonau Cymraeg, yn ogystal â darparu manylion y gwaith partneriaeth rydym wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u pennu i ni ac yn cydnabod y rôl bwysig y gall chwaraeon ei chwarae wrth gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

## YR IAITH GYMRAEG MEWN CHWARAEON

Sefydlodd Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg bartneriaeth newydd yn ystod 2020-21 i gefnogi ac annog y sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon (h.y. Cyrff Rheoli Cenedlaethol chwaraeon a sefydliadau cenedlaethol fel Cymdeithas Chwaraeon Cymru a StreetGames) i ymestyn eu darpariaeth Gymraeg. Mae Chwaraeon Cymru yn gweld y gwaith hwn fel rhan bwysig o'n dyletswyddau iaith Gymraeg drwy annog ffurfio a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

## MARCHNATA, CYFATHREBU A DIGIDOL

Mae ein holl e-gyfathrebu cyhoeddus yn parhau i gael ei gynhyrchu'n ddwyieithog gyda newidiadau diweddar wedi'u gwneud i'w gwneud yn fwy apelgar i gynulleidfa Gymraeg, fel newidiadau fformatio i wneud i gynnwys Cymraeg fod yn amlwg ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Cynhyrchir cylchlythyrau partneriaid yn gwbl ddwyieithog hefyd.

Ar gyfryngau cymdeithasol nid ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol ac os yw aelodau'r cyhoedd yn cysylltu â ni ar gyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg, rydym yn cysylltu â hwy yn eu dewis iaith. Mae ein cyfrifon Twitter a Facebook Cymraeg wedi gweld cynnydd sylweddol mewn rhyngweithio ac ymgysylltu.

Mae ein gwefan gorfforaethol ac unrhyw ficrosafleoedd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac mae'r holl apiau a gwasanaethau digidol rydym yn eu datblygu yn gwbl ddwyieithog, gyda rhyngwynebau Cymraeg ac mae'r fersiynau Cymraeg yn gwbl weithredol.

Yn ddiweddar, ailfrandiodd Chwaraeon Cymru yr Arolwg Chwaraeon Ysgol, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â brand Chwaraeon Cymru. Gan weithio gydag asiantaeth greadigol, rydym wedi sicrhau bod yr holl asedau yn ddwyieithog, gan gynnwys cyflwyniadau, e-droedyn ar ein negeseuon e-bost ni ein hunain, a phecyn adnoddau a ddarperir i bartneriaid.

## CYLLID GRANT

Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu chwaraeon i bobl yn ddwyieithog drwy ein cynlluniau buddsoddi.

## CRONFA CYMRU ACTIF

Sefydlwyd y cynllun cyllido hwn yn gynnar yn ystod y pandemig i ddiogelu sefydliadau chwaraeon drwy gynnig cefnogaeth frys ac wedyn, yn gynyddol, i'w helpu i symud ymlaen at fwy o gynaliadwyedd yn y dyfodol. O blith y 625 o ddyfarniadau gan Gronfa Cymru Actif, mae 40 gan sefydliadau a ddywedodd eu bod yn darparu gweithgarwch chwaraeon yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, a dywedodd 39 o sefydliadau eu bod yn ei defnyddio'n rhannol.

Dangosir effaith gyfunol y 79 o ddyfarniadau i'r clybiau a oedd yn bwriadu naill ai ddechrau neu gynyddu eu darpariaeth o gyfleoedd chwaraeon gan ddefnyddio'r Gymraeg yn y tabl isod:

| | **Gweithgarwch Cymraeg mewn ceisiadau a ddyfarnwyd yn 2021-22** |
|---|---|
| Nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg (yn llawn) | **756** |
| Nifer yr Hyfforddwyr Cymraeg (yn llawn) | **412** |
| Nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg (yn rhannol) | **412** |
| Nifer yr Hyfforddwyr Cymraeg (yn rhannol) | **719** |

## EIN DYLETSWYDDAU

Mae'r effaith bosibl ar y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chrynhoi fel adran safonol o Asesiad Effaith Chwaraeon Cymru a thempled papur Bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o bob newid newydd neu arwyddocaol mewn polisi ac fel rhan o ysgrifennu pob papur bwrdd.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud y newid arfaethedig i gynnwys yr adroddiad Safonau'r Gymraeg hwn yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Bydd hwn nawr yn cynnwys yr holl ofynion adrodd blynyddol ar gyfer ein dyletswyddau statudol, gan gynnwys yr Iaith Gymraeg.

Mae Chwaraeon Cymru yn rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, grŵp o sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg) sydd wedi datblygu cyfres o amcanion **cydraddoldeb** ar y cyd y mae'r sefydliadau wedi cytuno i gydweithio i'w rhoi ar waith. Ar gyfer Chwaraeon Cymru, bydd gweithredu'r amcanion hyn hefyd yn golygu gweithredu cadarnhaol ar y Gymraeg i gynyddu amrywiaeth, yn ogystal â'r naw nodwedd warchodedig.

## CYDYMFFURFIO Â'R SAFONAU

At ddiben yr adroddiad hwn byddwn yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu i gadw at 'Ddosbarth o Safonau' fel Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithredol ac ati. Nid yw'r adroddiad hwn yn hollgynhwysfawr ac nid yw'n darparu diweddariad am y ffordd rydym yn cadw at bob Safon sy'n berthnasol i ni. Ei nod yw rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a'r Comisiynydd am y camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau.

Dewisodd Chwaraeon Cymru gael rhywfaint o sicrwydd ychwanegol am ein gweithrediadau gyda Safonau'r Gymraeg drwy ofyn am adroddiad archwilio mewnol gan Deloitte. Rhoddodd eu hadroddiad sgôr sicrwydd sylweddol i'r maes, sef y lefel sicrwydd uchaf o'r 4 sydd ar gael. Diffinnir ei lefel sicrwydd fel '...fframwaith rhesymol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth a ddylai sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni. ...'. O'r 10 Safon a samplwyd ar gyfer profi, gwnaed un argymhelliad blaenoriaeth isel i Chwaraeon Cymru ystyried gweithredu fersiwn Cymraeg o'i fewnrwyd ar gyfer ei staff.

## DARPARU GWASANAETHAU

Mae'r holl arwyddion yn ein dwy Ganolfan Genedlaethol ac yn ein digwyddiadau yn ddwyieithog. Yn flaenorol buom yn datblygu arwyddion gyda'r testun Saesneg yn gyntaf, ond mae arwyddion newydd wedi'u prynu (wedi'u teilwra mewn llawer o achosion) gan sicrhau mai'r Gymraeg fydd yn cael ei darllen yn gyntaf.

Rydym wedi datblygu proses ar gyfer yr holl staff ar sut i ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â'r Gymraeg a manylir ar y broses hon ar dudalennau Cymraeg ein mewnrwyd corfforaethol.

Mae Plas Menai wedi gweithredu gwefan a system archebu newydd sy'n gwbl ddwyieithog. Mae'r ddwy system yn gwella'r swyddogaethau presennol ac yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig pontio di-dor i'r cwsmer o un i'r llall.

Ar ôl adolygu'r gwasanaeth delio â galwadau y tu allan i oriau cychwynnol, mae Chwaraeon Cymru wedi caffael contract 18 mis tan fis Medi 2023 i sicrhau bod galwadau Cymraeg yn cael sylw y tu allan i oriau swyddfa.

Mae Chwaraeon Cymru wedi defnyddio'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg i gynnal cyfarfodydd fideogynadledda ac wedi hyrwyddo'r swyddogaeth hon drwy gyfathrebu mewnol â staff am ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg.

## LLUNIO POLISÏAU

Roedd y cylch ymgynghori ar gyfer Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY) 2022 wedi arwain at adborth ar yr angen am ddeall a all ymatebwyr gael mynediad at hyfforddiant/cyfarwyddyd yn y Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae cwestiwn newydd wedi ei ychwanegu at arolwg 2022 ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig.

## GWEITHREDOL

Yn ystod 2021-22 roedd gan bob swydd wag sgiliau Dwyieithog / Amlieithog wedi'u rhestru fel maen prawf dymunol ar ddisgrifiadau swyddi. Ymunodd cyfanswm o 34 o staff newydd â Chwaraeon Cymru yn ystod 2021-22 ar gontractau parhaol, tymor penodol neu dymhorol ac o blith y staff newydd hyn mae 9 naill ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n rhannol, gan gynnwys rhai mewn swyddi cyhoeddus allweddol.

Yn 2021-22, gofynnwyd i'r holl staff a oeddent yn dymuno derbyn gohebiaeth ysgrifenedig ynghylch eu cyflogaeth yn y Gymraeg.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r cyfle i wneud cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd y broses gwyno gyfan yn cael ei chwblhau yn eu dewis iaith.

Gall pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith, os mai dyma sut maent yn dewis dysgu. Yn ystod 2021-22, roedd tri chwrs Cymraeg yn cael eu cynnal yn fewnol – lefel mynediad 1, lefel mynediad 1 (rhan 2) ac uwch. Ar draws y sefydliad, mae 16 o bobl wedi mynychu'r cyrsiau hyn.

Mae dau unigolyn wedi mynychu cyrsiau Cymraeg dwys 5 diwrnod drwy gyfrwng Cymraeg Gwaith yn ystod 2021-22, un yn rhithwir ac un yn breswyl.

**Rhoddir y dewis i bob ymgeisydd gael cyfweliad yn y Gymraeg neu'r Saesneg**

## CADW COFNODION:

**Rydym yn cadw cofnod o nifer y siaradwyr Cymraeg yn Chwaraeon Cymru. Yn 2021/22 roedd gennym y canlynol:**

| Lefel y Gymraeg | Nifer y Staff (% o gyfanswm y staff) |
|---|---|
| Lefel y Gymraeg | 24 (12%) |
| Rhugl | 20 (10%) |
| Rhannol | 30 (15%) |
| Dechreuwr | 68 (35%) |
| Di-Gymraeg | 53 (27%) |

Mae'r data uchod yn dangos cynnydd parhaus mewn datganiadau drwy ymgysylltu â staff i wella'r system fonitro hon (cynnydd i 73% o 36% yn 2019/20). Bu cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg o 33% i 37% o gymharu â 2020/21.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, derbyniodd Chwaraeon Cymru 2 gŵyn ffurfiol ynghylch defnydd o'r Gymraeg. Roedd y ddwy yn ymwneud â dogfennau y gofynnodd y Senedd amdanynt na chawsant eu darparu yn y Gymraeg. Mae newidiadau wedi'u rhoi ar waith i atal hyn rhag digwydd eto ac i sicrhau bod pob dogfen a ddarperir i'r Senedd yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog.

Yn ôl data a gasglwyd gan reolwyr Plas Menai yn 2021-22, o'r 80 o staff ar gytundeb parhaol, tymor penodol neu achlysurol, roedd 45 yn siarad Cymraeg yn rhugl ac roedd 11 yn siarad Cymraeg fel ail iaith neu fel dysgwyr, cyfanswm o 70% â sgiliau Cymraeg. Derbyniodd 68 aelod o staff hyfforddiant sefydlu yn 2021-22 ac, o blith y rhain, derbyniodd 10 aelod o staff (15%) yr hyfforddiant hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## ATEGOL – DARPARU GWASANAETHAU / LLUNIO POLISÏAU / GWEITHREDOL / CADW COFNODION

Mae ein 'Cynllun Iaith Gymraeg' yn cynnwys pob un o'n safonau ac mae i'w weld ar ein gwefan.

Mae manylion am sut byddem yn rheoli cwyn sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg a grybwyllwyd uchod.

Os gwneir cais am hynny, byddwn yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth am ein hymlyniad i unrhyw un o'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg, mae llawer o feysydd yr ydym eisiau parhau i fwrw ymlaen â hwy. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol ar y rhain yn ein gwaith cynllunio ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.

Os gwneir cais am hynny, byddwn yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth am ein dull o gadw at unrhyw un o'r safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae Tudalen 34 yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud i ddarparu cyfleoedd chwaraeon cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy ein partneriaeth gydag Urdd Gobaith Cymru, sef y sefydliad allweddol ar hyn o bryd yn y gofod hwn.




# DADANSODDI PERFFORMIAD

## YSTADEGAU CYDRADDOLDEB CYFREDOL - GWEITHLU CHWARAEON CYMRU

Ar 31 Mawrth 2022, roedd Chwaraeon Cymru yn cyflogi 195 o bobl mewn swyddi parhaol, tymor penodol a thymhorol. Mae'r ystadegau **cydraddoldeb** ar gyfer y staff hynny wedi'u dadansoddi yn ôl nodwedd warchodedig yn Ffigur 1


**Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Gweithlu Chwaraeon Cymru 2021 -2022**




***Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%**

Mae Ffigur 2 yn dangos nifer y dynion a'r merched a gyflogir yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract yn ystod 2021-22.

**Dynion a merched a gyflogir yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract**





**Bwlch cyflog y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2022 yw 0% (Canolrifol) neu 6.1% (Cymedrig).**

# YSTADEGAU CYDRADDOLDEB – BWRDD

Mae Ffigur 3 yn dangos yr ystadegau **cydraddoldeb** ar gyfer aelodau Bwrdd Chwaraeon Cymru yn ystod 2021-22

**Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Bwrdd Chwaraeon Cymru 2021 - 2022**





***Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%**

# RECRIWTIO

Yn 2021-2022, derbyniodd Chwaraeon Cymru **694** o geisiadau gan unigolion a oedd yn gwneud cais am swyddi gyda Chwaraeon Cymru. Mae Ffigur 4 yn dangos yr wybodaeth **cydraddoldeb** ar gyfer yr ymgeiswyr.

**Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer recriwtio 2021-22**





*Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%

# STAFF YN DECHRAU O'R NEWYDD

Cafwyd 34 o staff yn dechrau o'r newydd (ar gontract tymor penodol, tymhorol neu barhaol) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022. Mae Ffigur 5 yn dangos yr wybodaeth **cydraddoldeb** ar gyfer y staff newydd hynny.

**Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer staff yn dechrau o'r newydd yn Chwaraeon Cymru yn 2021 -2022**





***Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%**

# STAFF YN GADAEL

Gadawodd 26 aelod o staff (ar gontract tymor penodol, tymhorol neu barhaol) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022. Mae Ffigur 6 yn dangos yr wybodaeth **cydraddoldeb** ar gyfer y staff hynny a adawodd.

**Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer staff yn gadael yn ystod 2021-2022**




***Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%**

# ADRODDIAD CYFRANOGIAD CHWARAEON

| | Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018 | Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 |
|---|---|---|
| | Cyfranogiad mewn chwaraeon deirgwaith yr wythnos o leiaf | |
| Cyffredinol (pawb) | 48% | 32% |
| Merched a genethod | 46% | 28% |
| Pobl o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig | - | 31% |
| Ethnigrwydd | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig 40%<br>Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig 51%<br>Grwpiau ethnig Cymysg / Lluosog 52%<br>Grŵp ethnig arall 46%<br>Gwyn 49% | -<br>-<br>-<br>-<br>- |
| Pobl yn byw mewn amddifadedd economaidd–gymdeithasol / amddifadedd sylfaenol* | 42% | 21% |
| Anabledd neu nam / salwch neu gyflwr tymor hir** | 47% | 21% |
| Siaradwyr Cymraeg | 54% | 38% |
| Nid heterorywiol / strêt | Amh. | 35% |

*Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018 – disgyblion yn Chwartel 4 Prydau Ysgol Am Ddim; Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 – pobl sy'n byw mewn amddifadedd sylfaenol

**Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018 – disgyblion ag anabledd neu nam; Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 – pobl â salwch neu gyflwr tymor hir

# ADRODDIAD BUDDSODDI

## ELENI RYDYM WEDI PARHAU I GYLLIDO PROSIECTAU CYMUNEDOL SY'N CEISIO CYFLAWNI O LEIAF UN O NODAU CRONFA CYMRU ACTIF:

1. Lleihau anghydraddoldeb a chynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a chynrychiolaeth ar gyfer:
   - merched a genethod
   - pobl ag anableddau
   - pobl o grŵp neu gefndir du, Asiaidd a lleiafrif ethnig
   - pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
   - pobl drawsryweddol
   - pobl sy'n byw mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol
   - pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg
2. Creu **cynaliadwyedd tymor hir**
3. Cyflwyno ffyrdd newydd neu wahanol o ddarparu gweithgarwch corfforol





# DADANSODDI DATA

Mae nifer y staff yn Chwaraeon Cymru sy'n datgan eu nodweddion gwarchodedig wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl menter gadarnhaol iawn i wella'r data am amrywiaeth staff. Mae'r holl gategorïau a gasglwyd yn cynnwys o leiaf 77% o staff wedi ymateb, ac eithrio anabledd oedd â chyfradd ymateb o 65%. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, oherwydd camau gweithredu gan ein tîm Adnoddau Dynol, mae'r cyfraddau ymateb hyn wedi gwella'n sylweddol. Ar gyfer nodweddion Anabledd (cynnydd o 171% yn y gyfradd ymateb); Cyfeiriadedd Rhywiol (33%); Crefydd/Cred (33%); Hunaniaeth Genedlaethol 15%); Grŵp Ethnig (18%).

Mae'r data Cyfranogiad Chwaraeon yn dangos effaith nodweddion ar wahaniaethau o'r boblogaeth gyffredinol ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon neu hamdden gorfforol. Mae'r anfantais fwyaf yn effeithio ar oedolion a phobl ifanc mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol; oedolion ag anabledd neu salwch/cyflwr tymor hir; oedolion benywaidd. Dylid nodi bod cydberthynas gadarnhaol rhwng rhai nodweddion a chyfranogiad mewn chwaraeon; mae siaradwyr Cymraeg, yn bobl ifanc ac oedolion, 6% yn fwy tebygol o gymryd rhan.

## ADNABOD A CHASGLU GWYBODAETH BERTHNASOL:

## Y CAMAU Y MAE'R AWDURDOD WEDI'U CYMRYD I NODI A CHASGLU GWYBODAETH BERTHNASOL

Mae gan Chwaraeon Cymru hanes maith o ymrwymiad i ymchwil ac i gasglu data a gwybodaeth berthnasol fel sail i'w bolisïau a'i strategaethau er mwyn hysbysu'r sector chwaraeon a'i bartneriaid a rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol ac yn y sector cyhoeddus.

Yr Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY): Mae cylch adolygu helaeth ac ymgynghori eang yn rhan o'r AChY i geisio barn a gweithio gyda nifer o randdeiliaid allweddol. Ni ellir gwneud pob newid o fewn pob cylch arolwg ond rydym yn gwneud newidiadau graddol i'w gweithredu yn y **tymor hir**. Mae'r AChY wedi'i wella fel arolwg hawdd ei ddarllen, fel enghraifft o newid cadarnhaol.

Mae datblygu'r AChY wedi cynnwys proses ymgynghori ffurfiol a threialu'r arolwg i ddeall yr wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu, ac ym mha ffyrdd. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau demograffig pwysig sy'n **ymwneud** â rhywedd, oedran, anabledd, ethnigrwydd, amddifadedd (Prydau Ysgol am Ddim) a'r Gymraeg. Mae'r cwestiynau hyn yn ein galluogi i olrhain tueddiadau mewn plant a phobl ifanc fel maent yn **ymwneud** â chwaraeon a monitro'r cynnydd rydym yn ei wneud fel sector wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog.

Ehangu cyrhaeddiad ac effaith buddsoddiad cymunedol (prosiect gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, CDPS): Yn ystod 2021-22 rydym wedi bod yn gweithio gyda'r CDPS, gan edrych ar sut gallwn ehangu cyrhaeddiad ac effaith ein buddsoddiad cymunedol. Mae ehangu cyrhaeddiad ac effaith yn cynnwys ymchwilio i sut rydym yn cyrraedd pobl nad ydym erioed wedi'u cyrraedd o'r blaen, yn ogystal ag edrych ar sut gallwn leihau'r rhwystrau sy'n bodoli i grwpiau ar y cyrion sy'n gwneud cais am fuddsoddiad ac yn ei dderbyn. Mae'r gwaith wedi cynnwys nifer o strategaethau a methodolegau, gan gynnwys gwaith helaeth i ehangu ac ailgysylltu â'n rhwydweithiau partner, yn ogystal â cheisio a phrofi proses grantiau newydd gyda defnyddwyr newydd a phresennol.

Er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, rydym yn dal i gasglu gwybodaeth berthnasol o'n prosesau buddsoddi cymunedol presennol, gan gynnwys gwneud defnydd o ddata MALIC i wneud synnwyr o nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, nifer y ceisiadau a ddyfarnwyd, a'r symiau a ddyfarnwyd i ardaloedd o amddifadedd. Rydym hefyd yn casglu data o'n buddsoddiad cymunedol ynghylch yr effaith bresennol a phosibl y mae clybiau'n ei chael ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Ers mis Mai 2020 rydym wedi cynnal pum ton o arolwg cenedlaethol cynrychioliadol ar boblogaeth o 1,000 o oedolion yng Nghymru mewn partneriaeth â Savanta ComRes. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys newidynnau sy'n ymwneud â rhyw, oedran, anabledd, ethnigrwydd, a statws economaidd-gymdeithasol. Mae'r arolwg wedi ein galluogi i olrhain tueddiadau, ac anghydraddoldebau, mewn agweddau ac ymddygiadau oedolion ar draws y nodweddion gwarchodedig hyn drwy gydol pandemig Covid-19. Yn ogystal, roedd pedwaredd ton yr arolwg (Awst 2021) yn cynnwys tri chwestiwn fideo a oedd yn ein galluogi i glywed yn uniongyrchol gan gyfranogwyr am eu profiadau byw o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod y pandemig.

Gydag Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) yn rhoi sylw i gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a hamdden gorfforol, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y nodweddion nad ydynt yn benodol i'r sector a nodir yn ACC.

## UNRHYW RESYMAU DROS BEIDIO Â CHASGLU GWYBODAETH BERTHNASOL

Mae angen samplu a phwysoli'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn seiliedig ar ffynonellau data cenedlaethol fel y rhai ar niferoedd disgyblion ac ysgolion. Nid yw pob nodwedd wedi'i chynnwys yn y ffynonellau data eilaidd hyn felly efallai nad ydynt yn gwbl gynrychioliadol.Mae angen dylunio rhai cwestiynau'n ofalus i sicrhau eu bod yn gweithio i bob plentyn ac mae angen amser ar gwestiynau newydd i ymgynghori, profi a threialu.

Mae gofyniad i adrodd ar wybodaeth berthnasol dros amser yn gwneud newidiadau i'r cwestiynau hyn yn anodd eu gweithredu. Bob tro y gwneir newid sylweddol i gwestiwn mae toriad ystadegol yn y data ac ni allwn gymharu mwyach i weld a oes cynnydd wedi'i wneud.

Blinder arolygon/adborth: ceir tystiolaeth bod rhai cymunedau yng Nghymru yn cael ceisiadau dro ar ôl tro i gyfrannu at brosiectau ymchwil. Mae angen i ni fod yn sensitif i hynny wrth gynnal ymchwil newydd.

## DATGANIAD AR EFFEITHIOLRWYDD TREFNIADAU'R AWDURDOD AR GYFER NODI A CHASGLU GWYBODAETH BERTHNASOL

Fel sefydliad rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig hanfodol ar gyfer meysydd **cydraddoldeb** allweddol gyda ffocws arbennig ar rywedd, anabledd, oedran, ethnigrwydd ac amddifadedd. Cesglir y data hyn yn bennaf drwy ein hofferynnau arolygu cenedlaethol (Arolwg Chwaraeon Ysgol; Arolwg Cenedlaethol Cymru; ComRes) sy'n cael eu cynnal yn gyfnodol i gyd. Mae'r adnoddau casglu data hyn yn rhoi data pwysig i ni ar gyfer monitro tueddiadau cyfranogiad ac agwedd. Gyda'i gilydd, maent

yn cynnwys trigolion Cymru sy'n saith oed a hŷn. Lle nad yw maint sampl arolwg yn ddigonol, mae'r sefydliad yn cynnal ymchwil ansoddol gyda grwpiau penodol i gael gwybodaeth bellach. Mae'r sefydliad yn casglu ac yn cadw llawer llai o ddata ar gyfer y canlynol: priodas neu bartneriaeth sifil (mewn cyflogaeth yn unig); beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol. Ni fyddai'n briodol casglu rhywfaint o'r wybodaeth sensitif hon drwy ein harolygon poblogaeth presennol, er enghraifft gyda phlant ifanc.

Rydym wedi ein cyfyngu mewn rhai ffyrdd i waith Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Er enghraifft, y ffynonellau tystiolaeth i greu fframiau sampl ar gyfer arolygon, a'r gallu i newid cwestiynau mewn arolygon aml-randdeiliaid.

Mae Chwaraeon Cymru yn casglu ystod eang o wybodaeth drwy arolygon a rhai adroddiadau pwrpasol. Fodd bynnag, mae lefel y manylder y gellir ei ddarparu yn dibynnu ar faint y sampl (sydd, yn ei dro, yn dibynnu ar y gyllideb) neu'n canolbwyntio ar faterion thematig penodol yn fanwl, gan wneud rhai canlyniadau yn archwiliadol yn hytrach na chynrychioliadol.

Mae'r lle i wallau o fewn dulliau sy'n seiliedig ar arolygon yn ei gwneud yn anodd cymharu yn aml, ac mae angen dadbacio data ar gyfer dimensiynau lluosog. Gall hyn gyfyngu ar ddadansoddiad ar sail thema a chroestoriad pellach y themâu hyn. Gall dadansoddi is-genedlaethol fod yn anodd hefyd i ddaearyddiaethau llai.

Nid oes unrhyw ffordd strwythuredig a chydlynol o sicrhau bod cwestiynau arolwg yn seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf ledled Cymru. Mae hyn yn arwain at gwestiynau tebyg a ofynnir mewn sawl ffordd ar draws arolygon lluosog. Mae angen safonau data cyffredin ar draws y sector cyhoeddus, o leiaf.

Nid yw rhai dulliau yn gynaliadwy, ee defnyddio hawlwyr prydau ysgol am ddim cymwys (fel procsi o amddifadedd economaidd-gymdeithasol).

Rydym yn ymdrechu i ailadrodd a gwella ein dulliau gweithredu lle bynnag y bo modd. Ceir tystiolaeth o hyn drwy'r broses ymgynghori a'r ddeialog barhaus gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer yr Arolwg Chwaraeon Ysgol, a'n gwaith i ehangu cyrhaeddiad ac effaith ein grantiau cymunedol drwy ein gwaith gyda CDPS.

Ar hyn o bryd nid ydym yn dod â'n holl wybodaeth at ei gilydd i edrych yn fanwl ar y data rydym yn eu casglu o safbwynt cydraddoldeb (h.y., nid ydym yn cadw ein holl ddata o arolygon ac mewn mannau eraill mewn un ddogfen i gael y darlun cyffredinol hwnnw).

## CWYNION, ANFODLONRWYDD, DISGYBLAETH

Mae gan Chwaraeon Cymru bolisi Gwrth-fwlio, Aflonyddu, Gwahaniaethu ac Erlid sy'n nodi safonau ymddygiad yn glir, gan fanylu ar y rhai y mae'r sefydliad yn eu hystyried yn annerbyniol a'r canlyniadau tebygol os bydd sail i unrhyw achos o fynd yn groes i'r ymddygiadau hyn. Mae prosesau ar gael hefyd ar gyfer cwynion a wneir gan y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni chynhaliwyd unrhyw gwynion na disgyblu.

## HYFFORDDIANT CYDRADDOLDEB PENODOL

Mae pawb sy'n dechrau o'r newydd yn dilyn hyfforddiant **cydraddoldeb** ac amrywiaeth ar-lein.

# CANLYNIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN

Roedd cyfanswm gwariant cynhwysfawr Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn £40,329,000 (2020/21 £37,557,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn (tudalen 108), ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn orwariant wedi'i gynllunio o £259,000 (2020/21 tanwariant wedi'i gynllunio o £607,000 (2020/21 £568,000).

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

# CYNALIADWYEDD (YN CYNNWYS YR ADRODDIAD A'R CYNLLUN BIOAMRYWIAETH)

Mae Chwaraeon Cymru yn mynd ati i sefydlu polisïau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'r Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol yn ei lle'n llawn ar ôl cael ei chymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd. Targed Chwaraeon Cymru yw gostyngiad blynyddol o 3% o ran allyriadau $CO_2$. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae'r gofyniad i weithio gartref os gallwch chi wedi parhau yn ei le am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol, ond mae rhywfaint o deithio busnes wedi dechrau. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 5.6% ar allyriadau $CO_2$ y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'r data'n cynnwys y defnydd o ynni yng nghartrefi cyflogeion wrth weithio gartref, a fyddai'n cynyddu'r allyriadau ymhellach.

Yn ystod 2021/22, mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i ddefnyddio Teams i gyfarfod yn rhithwir, yn hytrach na mynd ar drip ar gyfer cyfarfod.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i gynnig Cynllun Beicio i gyflogeion, er mwyn lleihau'r defnydd o geir. Gall cyflogeion hawlio lwfans milltiroedd o 20c y filltir ar gyfer pob taith fusnes a wneir ar feic.

Comisiynwyd yr Ymddiriedolaeth Garbon i adolygu'r ôl troed carbon presennol. Y flwyddyn gyntaf a adolygwyd oedd 2019/20, a chynhyrchodd Chwaraeon Cymru 2,731 o dunelli o $CO_2$ (anuniongyrchol ac uniongyrchol). Nid oes cymhariaeth ar gael â sefydliadau eraill, ond bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel ein pwynt sylfaen ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i roi mesurau ar waith i leihau ein hôl troed carbon ar draws y canolfannau cenedlaethol ac mae'r gwaith parhaus wedi rhoi cyfleoedd pellach i uwchraddio i systemau mwy ynni-effeithlon neu ffyrdd cynaliadwy o weithio. Ym Mhlas Menai gwelwyd gostyngiad pellach yn y sgôr / raddfa DEC, sydd bellach yn C, gyda sgôr o 61 yn cynnal y cynnydd da sydd wedi gweld y sgôr yn disgyn o F yn ystod y 4 blynedd diwethaf ac yn sylweddol well na'r sgôr 'gyfartalog' ar gyfer adeiladau o oedran tebyg.

Mae'r rhaglen newid goleuadau yn CGChC yn parhau gyda mwy nag 85% o'r holl oleuadau mewnol bellach yn LEDs a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2022/23 neu pan fydd angen newid goleuadau.

Dechreuodd dau brosiect cynaliadwyedd mawr yn ystod y flwyddyn ariannol hon – yn y Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd, gosodwyd system ddraenio gynaliadwy wedi'i chymeradwyo gan SUDs i gefnogi'r defnydd parhaus o'n cae glaswellt.

Roedd ein hail brosiect yn canolbwyntio ar Blas Menai. Gan weithio i ddechrau gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon, datblygodd Chwaraeon Cymru gynnig i newid y system boeler tanwydd ffosil sy'n heneiddio, y system cylchrediad aer a'r cysylltiadau gyda datrysiad Pwmp Gwres Ffynhonnell Daear wedi'i ategu gan Bwmp Gwres Ffynhonnell Aer. Bydd y prosiect gwerth £1.8m hwn yn darparu ateb sy'n arwain at arbed costau ynni a charbon yn ogystal â lleihau costau cynnal a chadw adweithiol. Mae'r arwyddion cychwynnol yn dangos gostyngiad o 67.9% mewn allyriadau Carbon ac arbediad carbon o 265 $tCO_2e$ yn ystod y flwyddyn gyntaf.

# CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae cynaliadwyedd yn un o chwe Maes Blaenoriaeth Busnes ar gyfer 2022/23. Bydd gwaith yn parhau gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddefnyddio ein data allyriadau carbon sylfaen i sefydlu Strategaeth Datgarboneiddio Chwaraeon Cymru. Bydd y broses o ddatblygu'r strategaeth yn cynnwys rhanddeiliaid yn ymgysylltu â staff, y Bwrdd a phartneriaid. Bydd Chwaraeon Cymru yn trosi'r strategaeth hon yn gamau gweithredu seiliedig ar amser i gyflawni'r gostyngiadau sy'n ofynnol.

# CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.

| Gwastraff | | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm KG | 21,800 | 15,955 | 58,905 |

| Nwy Tŷ Gwydr | | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Co2 | Cyfanswm allyriadau crynswth (Co2) | 613,428 | 585,565 | 866,135 |
| | Cyfanswm allyriadau net (Co2) | 613,428 | 585,565 | 866,135 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 1 (uniongyrchol) | 367,960 | 389,429 | 485,125 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 2 | 245,468 | 196,136 | 381,010 |
| Ynni | Trydan (heb fod yn adnewyddadwy) | 1,156,067 | 841,282 | 1,490,651 |
| | Nwy | 1,024,685 | 961,142 | 1,008,490 |
| | Olew Nwy | 707,389 | 840,100 | 1,166,800 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant – ynni | 261,933 | 241,796 | 317,826 |

| Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt | Dŵr | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn ariannol (M3) | Cyflenwyd | 7,081 | 4,362 | 18,685 |
| | Tynnwyd | 3,591 | 1,321 | 2,722 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Costau cyflenwi dŵr | 17,908 | 11,350 | 49,893 |


| **Teithio** | | **2021/22** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---|---|---|---|
| **Co2** | Rheilffordd | 777 | 0 | 3,989 |
| | Awyr | 251 | 0 | 7,072 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi/Bws ac ati) | 12 | 2 | 307 |
| | Defnydd o Gar Personol | 5,235 | 1,182 | 27,572 |
| | **Cyfanswm** | **6,275** | **1,184** | **38,940** |
| **Cost** | Rheilffordd | 4,960 | 0 | 22,292 |
| | Awyr | 119 | 0 | 4,995 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi/Bws ac ati) | 116 | 33 | 1,524 |
| | Defnydd o Gar Personol | 8,820 | 1,693 | 45,742 |
| | **Cyfanswm** | **14,015** | **1,726** | **74,553** |
| **Milltiroedd** | Rheilffordd | 13,683 | 0 | 60,590 |
| | Awyr | 638 | 0 | 20,086 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi/Bws ac ati) | 50 | 14 | 1,602 |
| | Defnydd o Gar Personol | 19,451 | 3,763 | 99,944 |
| | **Cyfanswm** | **33,822** | **3,777** | **182,222** |

## CADWRAETH A BIOAMRYWIAETH

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd, wedi'i lleoli mewn gardd restredig Gradd 2 ac mae gan y coed i gyd Orchmynion Cadw Coed ac fe'u rheolir yn unol â'r gorchmynion hyn. Yn ystod 2021/22, gosodwyd gardd flodau gwyllt newydd ger y cae rygbi/pêl-droed glaswellt, gyda chynlluniau i'w hymestyn ym mis Mai 2022. Mae'r defnydd o blaladdwyr wedi'i leihau'n sylweddol i gydymffurfio â deddfwriaeth ac i ddiogelu'r amgylchedd.


Mae cynllun newydd Crowdfunder wedi galluogi clybiau i ddod yn ecogyfeillgar ac yn fwy cynaliadwy. Roedd un prosiect Bioamrywiaeth nodedig yn ymwneud â chyllido bwïau uwchsonig i reoli algâu gwyrddlas heb gemegau niweidiol yn Chwarel Lôn Fagl, Yr Hob, Sir y Fflint.
Mae'r Ganolfan Genedlaethol ym Mhlas Menai wedi'i lleoli ar lan Afon Menai, sy'n

## ALLYRIADAU CO2




| | Cwmpas 1 Nwy/Olew | Cwmpas 2 Trydan | Cwmpas 3 Teithio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 367,960 | 245,468 | 6,275 | 619,703 |
| 2020/21 | 389,429 | 196,136 | 1,184 | 586,749 |
| 2019/20 | 485,125 | 381,010 | 38,940 | 905,075 |

## DANGOSYDDION ARIANNOL




| | Cwmpas 1 Nwy/Olew | Cwmpas 2 Trydan | Cwmpas 3 Teithio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 78,045 | 183,888 | 14,015 | 275,948 |
| 2020/21 | 68,803 | 172,993 | 1,726 | 243,522 |
| 2019/20 | 88,471 | 229,355 | 74,553 | 392,379 |

Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r ganolfan yn parhau i gynnal cyrsiau addysg amgylcheddol forol ar Afon Menai, mae wedi plannu ac yn rheoli coetir ac mae ganddi ddwsin o focsys adar wedi'u lleoli o amgylch y safle, sy'n denu nifer o rywogaethau brodorol.

Mae gan y safle drac sgiliau beicio mynydd, gyda phlanhigion a blodau gwyllt sydd wedi sefydlu'n dda. Defnyddir yr ardal hefyd ar gyfer cynnal cyrsiau byw yn y gwyllt a sesiynau adeiladu cuddfannau ar gyfer pobl ifanc fel rhan o weithgareddau gwyliau ac ymweliadau gan ysgolion. Cafodd yr ardaloedd hyn eu gwella yn 2021 drwy hau mwy o hadau blodau gwyllt i annog gwenyn a glöynnod byw. Rydym yn torri'r gwair gyn lleied â phosibl yn yr ardal hon, digon er mwyn i feicwyr allu gweld y trac yn ddiogel. Fel rhan o raglen gweithgareddau ysgolion Plas Menai, cynigir y cyfle i gynorthwyo mewn sesiynau glanhau traethau ac archwilio traethau, gyda sesiwn ymarferol ar ddiogelwch dŵr wedyn.

Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- Byddwn yn edrych ar sut gallwn gynyddu bioamrywiaeth o fewn ein ffiniau, gan gynnwys plannu pellach a rheoli tiroedd.
- Parhau i hysbysu, eirioli a buddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella cynaliadwyedd a bioamrywiaeth.

## CAFFAEL CYNALIADWY A'R DYFODOL

Mae polisi caffael Chwaraeon Cymru yn datgan ei bod yn ofynnol i'r holl ddyfarniadau caffael sy'n fwy na £25,000 gael eu dyfarnu ar y sail eu bod yn cynnig "cyfuniad optimwm o gostau bywyd cyfan a manteision i fodloni gofynion Chwaraeon Cymru". Mae costau bywyd cyfan yn ystyried nid dim ond y pris prynu, ond hefyd yn ystyried cost barhaus perchnogaeth, cynnal a chadw a defnyddio gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i weithio er mwyn ymgorffori polisïau cynaliadwy yn ein gweithrediadau. Yn benodol, rydym yn ymwybodol o effaith amgylcheddol ehangach ein gwaith a byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o ddylanwadu'n gadarnhaol ar hyn.

## SWYDDOG CYFRIFO: B DAVIES
## 29 GORFFENNAF 2022

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

## ADRODDIADAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

#### Y BWRDD

Yn ystod 2021/22, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol;

| | |
|---|---|
| Mr Lawrence Conway ** | (Cadeirydd, Ailbenodwyd 01.09.2021) |
| Ms Pippa Britton **/*** | (Is Gadeirydd, Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Mr Ashok Ahir */*** | (Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Mr Ian Bancroft | (Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Ms Alison Thorne */*** | (Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Ms Judi Rhys MBE *** | (Ailbenodwyd 01.09.2021) |
| Yr Athro Leigh Robinson *** | (Ailbenodwyd 01.09.2021) |
| Mr Phil Tilley | (Ailbenodwyd 01.09.2021) |
| Mr Martin Veale JP */**/*** | (Ailbenodwyd 01.09.2021) |
| Ms Rajma Begum *** | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Mr Dafydd Trystan Davies | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Ms Delyth Evans | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Ms Nicola Mead-Batten * | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Ms Hannah Murphy | (Penodwyd 01.09.2019) |

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Ms S Powell (01.04.2021 i 18.09.2021) |
| Prif Weithredwr Dros Dro | Mr B Davies OBE (Gweithredol o 18.09.2021 i 31.03.2022) |

| | |
|---|---|
| * | Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| ** | Aelod o'r Pwyllgor Tâl |
| *** | Aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am gyfnod cychwynnol o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

### DATGAN BUDDIANNAU

Mae holl Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen datgan buddiannau gynhwysfawr, yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2021/22. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24 ('Datgeliadau Partïon Cysylltiedig') yn cael ei datgelu yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

## DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae'r systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

## CANFOD A RHEOLI RISG

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 90.

## POLISI TALU CYFLENWYR A'R PERFFORMIAD A GYFLAWNWYD

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2020/21 99%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn anelu at dalu i gyflenwyr, pan fo modd, o fewn 10 diwrnod yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Yn ystod 2021/22, talwyd 93% (2020/21 93%) o'r trafodion o fewn yr amserlen hon.

## OFFERYNNAU ARIANNOL

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.11 y datganiadau ariannol.

## TÂL ARCHWILWYR

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio natur a maint y gwaith heb fod yn archwilio a wneir gan Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2021/22, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol.

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1974, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o faterion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei wariant net, y newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr ysgrifennydd gwladol ar gyfer digidol, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y gronfa'n parhau i weithredu; a
- sicrhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol i fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys fy nghyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

**SWYDDOG CYFRIFO: B DAVIES**
**29 GORFFENNAF 2022**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22

## CYFLWYNIAD

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### Y BWRDD

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Strategaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdoriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd, yn ogystal â'r sgiliau ehangach sy'n ofynnol ar gyfer rôl o'r natur hon. Cedwir matrics sgiliau'r Bwrdd i sicrhau bod gan y Bwrdd y cyfuniad cywir o sgiliau a phrofiad.

Ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, ond ailbenododd Llywodraeth Cymru 4 aelod presennol o'r Bwrdd am dymor pellach hyd at fis Medi 2024. Yr aelodau hynny o'r Bwrdd yw Judi Rhys, yr Athro Leigh Robinson, Phil Tilley a Martin Veale JP.

Hefyd ailbenodwyd Lawrence Conway yn Gadeirydd am 12 mis arall hyd at 1af Medi 2021. Yn ystod y flwyddyn, ymgymerodd Llywodraeth Cymru â phroses recriwtio i benodi Cadeirydd newydd ac, ym mis Mawrth 2022, penodwyd y Farwnes Tanni Grey-Thompson i'r rôl. Bydd ei thymor yn dechrau ar 4 Gorffennaf 2022.

Penodwyd Hywel Tudor yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 18fed Tachwedd 2021 fel rhan o broses recriwtio agored, am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Mae Hywel yn ymuno â'r Pwyllgor yn dilyn ymadawiad Gareth Jones, y daeth ei ail dymor o dair blynedd i ben yn ystod y flwyddyn. Diolch i Gareth am ei wasanaeth ymroddedig i Chwaraeon Cymru yn ystod ei gyfnod yn y rôl a chroeso cynnes i Hywel yn aelod o'r Pwyllgor.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ei Fwrdd, sydd bellach yn cynnwys cynrychiolaeth o 57% o ferched, 14% o bobl ethnig amrywiol ac mae 7% yn ystyried eu hunain fel unigolion ag anabledd.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae tri phwyllgor parhaol wedi'u sefydlu;
Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y tabl isod.

| **Aelod Bwrdd** | **Cyfarfod Bwrdd**<br><br>(Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 5) | **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**<br>(Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4) |
|---|---|---|
| **Lawrence Conway (Cadeirydd)** | 4 / 5 | Amherthnasol |
| **Pippa Britton (Is Gadeirydd)** | 5 / 5 | Amherthnasol |
| **Ashok Ahir** | 5 / 5 | 3 / 4 |
| **Ian Bancroft** | 4 / 5 | Amherthnasol |
| **Alison Thorne** | 5 / 5 | 3 / 4 |
| **Judi Rhys MBE** | 4 / 5 | Amherthnasol |
| **Yr Athro Leigh Robinson** | 4 / 5 | Amherthnasol |
| **Martin Veale JP** | 4 / 5 | 4 / 4 |
| **Phil Tilley** | 5 / 5 | Amherthnasol |
| **Rajma Begum** | 4 / 5 | Amherthnasol |
| **Dafydd Trystan Davies** | 4 / 5 | Amherthnasol |
| **Delyth Evans** | 5 / 5 | Amherthnasol |
| **Nicola Mead-Batten** | 5 / 5 | 3 / 4 |
| **Hannah Murphy** | 5 / 5 | Amherthnasol |
| **(Aelodau Annibynnol – Pwyllgor Archwilio yn unig)** | | |
| **Gareth Jones** | Amherthnasol | 1 /1 |
| **Robert Williams** | Amherthnasol | 4 / 4 |
| **Hywel Tudor** | Amherthnasol | 2 / 2 |
| **Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb** | **90%** | **87%** |

## POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban sydd wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnir sylw at y Polisi hwn wrth groesawu staff ac aelodau i'r sefydliad ac mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2021/22, ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, gyda Llawlyfr y Staff. Ymdrinnir â chwythu'r chwiban allanol drwy ein Polisi Cwynion, sydd ar gael ar ein gwefan. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi yn benodol gyda chyflawni ei gyfrifoldebau ym maes risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol); a
- Sicrhau bod y risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth ac y manylir ar gamau gweithredu priodol i liniaru ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau'n 87%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- gweithredu ac effeithiolrwydd y rheoli risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- cydymffurfiaeth reoleiddio;
- adolygu cyllid grant;
- adolygu systemau ariannol craidd;
- adolygu costau aelodau'r Bwrdd;
- adolygu'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch;
- cytuno ar Gynllun Archwilio Mewnol y flwyddyn;
- monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r systemau TG yn sicrhau bod diogelwch ffisegol data

yn cael ei reoli Yn 2021/22, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth, gwendidau rheoli arwyddocaol na thwyll wedi'u canfod ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei reoli mewn ffordd briodol.

## Y PWYLLGOR TÂL

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 94.

## PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Bwrdd bwyllgor sefydlog newydd yn dilyn gwaith da blaenorol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Amrywiaeth. Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i herio, cefnogi a goruchwylio gwaith Chwaraeon Cymru wrth gyflawni ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn fewnol ac o ran ei gefnogaeth i'r sector.

## YR UWCH DÎM RHEOLI GWEITHREDOL

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Yn ystod y flwyddyn ymddiswyddodd Sarah Powell i gymryd rôl newydd fel Prif Swyddog Gweithredol Gymnasteg Prydain ac mae trefniadau interim wedi'u sefydlu hyd nes y gall y Cadeirydd newydd ystyried gofynion y Weithrediaeth yn y dyfodol.

Mae Brian Davies wedi'i benodi'n Brif Weithredwr dros dro ac mae Owen Lewis a Joanne Nicholas wedi ymuno â'r Weithrediaeth fel rhan o'r trefniadau hyn.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei adrodd a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

## EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD A'R PWYLLGOR

Gwnaeth newidiadau i gyfyngiadau Covid yn ystod 2021/22 ein hysgogi i ystyried dychwelyd i gyfarfodydd Bwrdd wyneb yn wyneb. Cytunwyd y byddai cyfarfodydd Bwrdd hybrid yn cael eu cynnal yn y dyfodol gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd drwy gydol y pandemig ac i gynyddu hyblygrwydd. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd adlewyrchu ar sut gellid gwella strwythur y cyfarfodydd hyn a chafodd newidiadau ymarferol eu hymgorffori i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn achlysurol fel rhan o Amserlen Fusnes y Bwrdd.

Cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn ac, o ganlyniad, cyflwynwyd nifer o newidiadau ymarferol o ran datblygu'r Bwrdd a datblygiad personol aelodau'r Bwrdd. Parhaodd aelodau'r Bwrdd i gymryd rhan yn anffurfiol rhwng cyfarfodydd ac maent hefyd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu ar gyfer diweddariadau staff a phartneriaid gan y tîm Cyfathrebu a Digidol.

Hefyd, cynhaliwyd nifer o sesiynau datblygu Bwrdd yn ystod y flwyddyn ar bynciau'n amrywio o Drawsrywedd mewn Chwaraeon i rôl chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn Addysg.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn enwebu aelodau unigol o'r Bwrdd i weithio'n agos gydag aelodau o'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, drwy sefydlu a/neu barhad nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Caiff penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd a'r is-bwyllgorau eu seilio ar gyngor a ddarperir gan staff Chwaraeon Cymru. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Dosberthir papurau cyn pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau; dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau llafar. Roedd y Bwrdd yn fodlon yn ystod y flwyddyn gydag amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer ei ddefnydd.

## RHEOLI RISG

## PWRPAS Y SYSTEM O REOLAETH FEWNOL

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

Er bod staff allweddol wedi parhau i weithio o bell ar gyfer mwyafrif y cyfnod adrodd oherwydd Covid-19, nid yw hyn wedi arwain at newidiadau arwyddocaol i'r system o reolaeth nac at unrhyw wendidau rheoli ychwanegol.

## Y GALLU I DDELIO Â RISG

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rydym wedi cofnodi Polisi a Strategaeth Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut dylid canfod, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr priodol neu aelod priodol o'r Weithrediaeth a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw aelod o'r tîm Gweithredol a / neu reolwr priodol.

## Y FFRAMWAITH RISG A RHEOLI

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau a nodir yn deillio o nodau sefydliadol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i holl gyflogeion Chwaraeon Cymru drwy gyfrwng porthol ar-lein, gyda'r hawliau golygu wedi'u cyfyngu i reolwyr perthnasol. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn cael eu harchwilio'n fewnol yn flynyddol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny.

## RISGIAU ALLWEDDOL

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg, a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y Risgiau Corfforaethol a'r camau gweithredu i'w lliniaru yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ym mhob cyfarfod pwyllgor ac yn trafod ac yn rhoi adborth i'r Weithrediaeth.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan yn Chwaraeon Cymru ac maent wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae risg sylweddol o hyd y bydd effaith ariannol a darparu pandemig Covid-19 ar bartneriaid a'r sector chwaraeon ehangach yn atal cynnydd Strategaeth Chwaraeon Cymru a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. I liniaru'r risg hon, rydym wedi buddsoddi cyllid sylweddol i ailsymudoli'r sector drwy ein ffrydiau cyllido.

Er bod Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gyllideb gynyddol ar gyfer 2022/23, mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol cynyddol a chostau eraill sy'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol, yn parhau i fod yn her enfawr wrth geisio cyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Mae risg ychwanegol hefyd y gallai natur interim / dros dro y trefniadau presennol ar lefel Weithredol effeithio ar gyflawni ein strategaeth, sy'n cael ei lliniaru gan brofiad manwl o'r sefydliad a'n strategaeth ar lefel y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Arwain.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac wrth i ni symud allan o'r pandemig, mae risg ychwanegol o ddiffyg ymgysylltu a chynhyrchiant ymhlith staff wrth i'r sefydliad barhau i ddatblygu strategaeth tymor hwy ar gyfer gweithio hybrid. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â staff drwy drafod â rheolwyr ac amrywiaeth o arolygon yn fesurau rheoli allweddol i warchod rhag y risg hon.

Mae'r risgiau eraill ar y gofrestr risg Gorfforaethol yn cynnwys methu cydymffurfio â phob deddfwriaeth, colli gwybodaeth sensitif o bosib, neu gysylltiad â gwybodaeth o'r fath, a methu dod o hyd i bartner wedi'i gomisiynu ar gyfer gweithrediadau Plas Menai. Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er

mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i'w lleihau ac yn rheoli'r risgiau hyn i lefel briodol. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gyflymach yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, mae'n edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru. Rhoddwyd sgôr sicrwydd sylweddol i bob adolygiad sicrwydd unigol yn ystod y flwyddyn hefyd – dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ac mae'n dangos amgylchedd rheoli cadarn ar draws y sefydliad.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw fater risg "uchel" neu "ganolig" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 7 o argymhellion blaenoriaeth isel a 12 pwynt gweithredu. Mae hyn yn welliant sylweddol ar berfformiad y llynedd.

O ran gweithredu dilynol, roedd 6 allan o'r 7 argymhelliad blaenorol a wnaed wedi cael eu gweithredu adeg yr archwiliad. Ailaseswyd amserlen yr 1 argymhelliad oedd yn weddill gan y Weithrediaeth a chafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wybod am y cynnydd.

Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n amserol.

## MONITRO GRANTIAU

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Caiff prosesau dyfarnu a monitro grantiau eu hadolygu'n flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau dyfarnu grantiau bob blwyddyn.

## RHEOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli Risg Chwaraeon Cymru, sy'n

gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2019/20 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

## DATBLYGIADAU PARHAUS

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gref, nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau, ac fel rhan o'n hethos o welliant parhaus, rydym yn adolygu'r meysydd rydym yn credu y gallem eu gwella ac yn cymryd camau i greu newid.

Gan adeiladu ar waith y llynedd, eleni gwelwyd ffocws pellach ar fesurau rheoli gwybodaeth a seibrddiogelwch yn dilyn lefel gynyddol o ymosodiadau yn ystod Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Tokyo. Mae hyn wedi arwain at brynu meddalwedd seibrddiogelwch ychwanegol a chefnogaeth i gryfhau ein hamgylchedd rheoli ymhellach, gyda lansiad y platfform wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2022/23.

Rydym hefyd wedi parhau â chymorth seibrddiogelwch a llywodraethu ychwanegol i'r sector yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gryfhau'r mesurau rheoli sydd ar waith i reoli'r risg sy'n gynhenid wrth fuddsoddi cyllid cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti, tra hefyd yn cynyddu eu hatebolrwydd.

**SWYDDOG CYFRIFO: B DAVIES**
**29 GORFFENNAF 2022**

# ADRODDIAD TÂL A STAFF

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Mae'r holl bolisïau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd rydym yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabledd'.

Ar ôl gweithredu'r strwythur tâl a graddfa newydd yn llwyddiannus o fis Medi 2019 ymlaen, mae gan y cyflogeion ddewis i naill ai aros gyda'r telerau cyfredol neu optio i mewn i'r strwythur newydd a chael mynediad at fanteision hyblyg uwch.
Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw gyda chyflog cychwynnol o £10.46 yr awr o leiaf. Dyfarnwyd dyfarniad tâl cost byw o 2% i'r holl staff yn ystod y flwyddyn a derbyniodd y rhai sy'n ennill llai na £24,000 daliad anghyfnerthedig unigol i sicrhau bod eu cynnydd yn ystod y flwyddyn yn £800.

Cwblhaodd Chwaraeon Cymru Arolwg Diwylliant ym mis Tachwedd 2021. Roedd y canlyniadau yn gadarnhaol gyda llai na 10% o'r staff a ymatebodd yn dynodi eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gadarn â'r cwestiynau ymgysylltu.

Roedd trosiant y staff ar gyfer 2021/22 yn 14.05% (2020/21 9.17%), gyda 7% ohono oherwydd i'r cyflogai adael yn dilyn diswyddiad (2020/21 5.16%).

## BUDDSODDI YN EIN POBL

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gyflawni achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl ac mae'n parhau i adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr asesiad diwethaf (Gwanwyn 2019) wrth i ni ddiweddaru ein polisïau a gweithdrefnau.

## DATA ABSENOLDEB SALWCH

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2021/22 (2020/2021) fel a ganlyn:

| Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd | Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn) | Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen |
|---|---|---|
| 715.31<br>(520.84) | 169.93<br>(156.50) | 4.21<br>(3.33) |

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2021/22 yw 1.9%. Mae hwn yn gynnydd bychan ar ganran 2020/2021 o 1.7% ond yn is na chyfradd 2019/20 o 2.25%, ac yn sylweddol is na'r cyfraddau diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol) ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 2.3%.

O blith yr 1.9%, cafodd 1.34% eu dosbarthu fel tymor hir a 0.56% fel tymor byr. Fel rhan o ffocws parhaus ar reoli absenoldeb ac iechyd cyflogeion yn effeithiol, bydd polisi absenoldeb salwch Chwaraeon Cymru yn parhau i gael ei adolygu yn ystod 2022/23, gyda chefnogaeth gan yr Undeb Llafur cydnabyddedig (PCS).

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i iechyd meddwl a lles ei gyflogeion ac wedi cynnal nifer o fentrau i gefnogi'r gweithlu yn y cyswllt hwn.

## CYNLLUN PENSIWN

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Yn unol â rheoliadau LGPS, caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.6 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

## POLISI TÂL

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogeion Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl, ac yn yr un modd rhaid i unrhyw gynnydd mewn tâl i staff gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## CONTRACTAU GWASANAETH

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tridiau y mis.

## CYFNOD RHYBUDD

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

## AMSER CYFLEUSTER YR UNDEB LLAFUR

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

# CYFLOG Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

## TÂL

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr blaenorol (Sarah Powell) gyflog crynswth o £48,000 (2020/21 £102,000). Gadawodd y Prif Weithredwr ar 19eg Medi a phenodwyd Brian Davies yn Brif Weithredwr Dros Dro ar gyflog crynswth o £104,000. Yn ystod y flwyddyn, y cyflog gwirioneddol a dderbyniwyd oedd £89,000. Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys i gael taliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

## MANTEISION MEWN NWYDDAU NEU GYNNYRCH

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## HAWLIADAU CYFLOG A PHENSIWN

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am gyflog a phensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 99. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

## COSTAU STAFF (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| | 2021/2022 | 2020/2021 |
|---|---|---|
| **Parhaol** | **£,000** | **£,000** |
| Cyflogau a thâl | 6,113 | 6,002 |
| Ffyrlo a dderbyniwyd* | (107) | (616) |
| Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau a straen ar bensiwn | 54 | 75 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 656 | 598 |
| Costau Pensiwn eraill | 3,007 | 2,119 |
| Staff ar secondiad | (41) | (47) |
| | 9,682 | 8,131 |
| Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo | 428 | 349 |
| | 10,110 | 8,480 |
| Addasiadau IAS19 | (870) | (610) |
| | 9,240 | 7,870 |
| Llai: Dyraniad i SPORTLOT | (3,274) | (2,816) |
| | **5,966** | **5,054** |

*Derbyniwyd rhwng 1af Ebrill a 30ain Medi oherwydd cau canolfan Caerdydd a Phlas Menai, ar gyfer cyfartaledd o 33 o gyflogeion y mis.

# TÂL (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri | Cyflog £000 | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2021/22 (2020/21) | 2021/22 (2020/21) | 2021/22 (2020/21) | 2021/22 (2020/21) |
| Mr Lawrence Conway | Cadeirydd | 50% (50%) | 35 - 40 (35 – 40) | - - | 35 - 40 (35 – 40) |
| Ms Pippa Britton | Is Gadeirydd | 50% (50%) | 10 - 15 (10 – 15) | - - | 10 - 15 (10 – 15) |
| Ms Sarah Powell[1] | Prif Weithredwr | 25% (25%) | 45 - 50 (95-100) | (8,000) (35,000) | 35 - 40 (125 –130) |
| Mr Brian Davies OBE[2] | Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr Dros Dro | 25% (80%) | 85 - 90 (75 – 80) | 56,000 (49,000) | 140 - 145 (125 – 130) |
| Mr Paul Randle[3] | Cyfarwyddwr Corfforaethol | - (25%) | - (65 – 70) | - (20,000) | - (90 – 95) |
| Ms Emma Wilkins[4] | Cyfarwyddwr Corfforaethol | (25%) - | 45 – 50 - | 14,000 - | 60 – 65 - |
| Mr Graham Williams | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 25% (25%) | 75 - 80 (65 – 70) | 52,000 (47,000) | 125 - 130 (115 – 120) |
| Mr Steven Morgan | Pennaeth Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai | 0% (0%) | 55 - 60 (55 – 60) | 15,000 (15,000) | 70 - 75 (65 - 70) |
| Mr Craig Nowell[5] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Genedlaethol | 0% (0%) | 60 - 65 (40 – 45) | 19,000 (13,000) | 80 - 85 (55 – 60) |
| Mr Owen Lewis[6] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Systemau Chwaraeon | 100% (100%) | 60 – 65 (55 – 60) | 26,000 (7,000) | 90 – 95 (65 – 70) |
| Mrs Joanne Nicholas[7] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Systemau Chwaraeon | 50% (50%) | 60 – 65 (55 – 60) | 18,000 (18,000) | 80 – 85 (70 - 75) |
| Mr Ashok Ahir | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Mr Ian Bancroft | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Alison Thorne | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Judi Rhys MBE | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Yr Athro Leigh Robinson | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Mr Phil Tilley | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Mr Martin Veale JP | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Rajma Begum | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Mr Dafydd T Davies | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Delyth Evans | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Nicola Mead-Batten | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Hannah Murphy | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |

1 Gadawodd 19 Medi 2021. Band cyflog cyfwerth ag amser llawn 100k – 105k
2 Prif Weithredwr Dros Dro o 18 Medi 2021. Cyfran y Loteri 80% fel Cyfarwyddwr / 25% fel Prif Weithredwr Dros Dro.
3 Gadawodd 28 Chwefror 2021
4 Penodwyd 9 Awst 2021. Band cyflog cyfwerth ag amser llawn 70k – 75k
5 Penodwyd 13eg Gorffennaf 2020
6 Gweithredu ar lefel uwch fel rhan o'r tîm Gweithredol o 18 Medi 2021
7 Penodwyd 4 Mai 2020. Gweithredu ar lefel uwch fel rhan o'r tîm Gweithredol o 18 Medi 2021.

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2021/22 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2022 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2021 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Ms Sarah Powell** Prif Weithredwr* | -0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5) | 35 – 40 (40 – 45) | 572 | 547 | 20 |
| **Mr Brian Davies OBE** Prif Weithredwr Dros Dro/Cyfarwyddwr Corfforaethol** | 2.5 – 5.0 (10 – 12.5) | 25 – 30 (20 – 25) | 439 | 371 | 59 |
| **Mr Graham Williams** Cyfarwyddwr Corfforaethol | 2.5 – 5.0 (2.5 – 5.0) | 30 – 35 (40 – 45) | 567 | 494 | 66 |
| **Ms Emma Wilkins** Cyfarwyddwr Corfforaethol*** | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 0 – 5 (0 – 5) | 51 | 0 | 46 |
| **Mr Steven Morgan** Pennaeth Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 10 – 15 (0 – 5) | 151 | 132 | 15 |
| **Mr Craig Nowell** Cyfarwyddwr Cynorthwyol Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 0 – 5 (0 – 5) | 21 | 8 | 8 |
| **Mr Owen Lewis** Cyfarwyddwr Cynorthwyol Systemau Chwaraeon**** | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 15 – 20 (10 - 15) | 234 | 205 | 24 |
| **Mrs Joanne Nicholas** Cyfarwyddwr Cynorthwyol Systemau Chwaraeon**** | 0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5) | 0 – 5 (0 – 5) | 25 | 11 | 8 |

* Gadawodd 19 Medi 2021
** Penodwyd Brian Davies yn Brif Weithredwr Dros Dro ar 18.09.21. Unwyd dau bensiwn Caerdydd a'r Fro gan arwain at gyfandaliad wedi cronni.
*** Penodwyd 9 Awst 2021
****Gweithredu ar lefel uwch fel rhan o'r tîm Gweithredol o 18 Medi 2021

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

## GWIR GYNNYDD MEWN GWERTH TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## STAFF (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

| | **2021/2022** | **2020/2021** |
|---|---|---|
| | **Nifer** | **Nifer** |
| Cyfanswm | 169.9 | 156.5 |

Mae cyfansoddiad staff cyfredol y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 66% gwryw a 233 benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 44% yn wrywod a 56% yn fenywod.

## POLISI TRETH AR GYFER Y RHAI A BENODIR ODDI AR Y GYFLOGRES

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 8 trefniant a oedd wedi bodoli (2020/21, 7 trefniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

## CYNLLUNIAU IAWNDAL – PECYNNAU YMADAEL (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| | Nifer y diswyddiadau | |
|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | **2021-22** | **2020-21** |
| < £10,000 | 0 | 0 |
| £10,000 - £25,000 | 0 | 2 |
| £25,000 - £50,000 | 1 | 3 |
| £50,000 - £100,000 | 0 | 3 |
| £100,000 - £150,000 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | 1 | 8 |
| Cyfanswm costau adnoddau (£) | 54,000 | 323,000 |

Talwyd taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru. O blith yr 8 o becynnau ymadael yn 2020/21, mae 1 yn ymwneud â darpariaeth a wnaed ar gyfer cyflogai'n gadael ym mis Ebrill 2021, a thalwyd pecyn ymadael.

## DATGELIADAU CYFLOG TEG (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad.  Blwyddyn ariannol 2021/22 yw'r flwyddyn gyntaf y mae angen datgeliadau mewn perthynas â'r gymhareb tâl 25ain canradd a'r gymhareb tâl 75ain canradd.

| | 2021/22 | 2021/22 | 2021/22 | | 2020/21 | 2020/21 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb Tâl Canradd | Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £ | Cyflogai £ | Cymhareb | | Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £ | Cyflogai £ | Cymhareb |
| 25ain | 103.6 | 25.6 | 4.1 | | 101.6 | 25.0 | 4.1 |
| Canolrifol | 103.6 | 33.6 | 3.1 | | 101.6 | 31.7 | 3.2 |
| 75ain | 103.6 | 44.6 | 2.3 | | 101.6 | 44.0 | 2.3 |

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres a staff asiantaeth sydd wedi cael eu defnyddio
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon Dosbarthu'r Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a lwfansau ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £20,193 i £103,588 (amrywiodd tâl 2020/21 o £19,800 i £101,560). Yr unig newid yn y gymhareb yw gostyngiad bychan o 0.1 o fewn y canolrif ac mae i'w briodoli i newid yn y cymysgedd staff yn ystod y flwyddyn. Mae'r gymhareb cyflog canolrifol yn gyson â'r polisïau tâl a dyfarniadau ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru yn eu cyfanrwydd.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf oedd 2%. Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd oedd 2%.

**SWYDDOG CYFRIFO: B DAVIES**
**29 GORFFENNAF 2022**

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

## BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## BARN AR REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## SAIL Y FARN

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (ISAs) yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth ymchwil rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## CASGLIADAU PERTHNASOL I FUSNES GWEITHREDOL

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## GWYBODAETH ARALL

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yn y cyswllt hwn.

## ADRODD AR OFYNION ERAILL

## BARN AR FATERION ERAILL

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol. Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Datganiad Llywodraethu sydd wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol sydd wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

## MATERION YR WYF YN ADRODD ARNYNT DRWY EITHRIAD

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy staff yn ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i gael eu harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

## CYFRIFOLDEBAU

### CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno, i sicrhau eu bod yn rhoi barn gywir a theg ac i sicrhau'r rheolaeth fewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifo er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n briodol faterion cysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifo busnes gweithredol oni bai y credir fod hynny'n amhriodol.

### CYFRIFOLDEBAU'R ARCHWILYDD AM YR ARCHWILIAD AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gallant, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o fethu cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, archwiliad mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
  - y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw a phostio cyfnodolion anarferol;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Chwaraeon Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd yn diwygio fel sy'n briodol; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## CYFRIFOLDEBAU AM REOLEIDD-DRA

Mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## ADRODDIAD

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Ann-Marie Harkin
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
9 Awst 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

